



Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

FFOCWS AR Y DYFODOL



Llesiant yn ein Cymuned 2017 – 2022

2022 - Fersiwn 6



Cynnwys

Adran 1 – Cyflwyniad.....	3
1.1 Cyflwyniad gan Arweinydd a Phrif Weithredwr y Cyngor	3
1.2 Canolbwyntio ar y Dyfodol - Crynodeb	6
1.3 Diben Ein Cynllun Ffocws ar y Dyfodol	7
1.4 Cynnwys ein Cymunedau	10
Adran 2 – Ffocws ar y Dyfodol – Ein Cynllun.....	13
2.1 Ein Gweledigaeth Gyffredin	13
2.2 Ein Themâu a'n Hamcanion Llesiant – Crynodeb	14
2.3 Ffocws ar y Dyfodol – Ein taith hyd yma	16
2.4 Ein Hamcanion Llesiant – Y manylion.....	20
2.5 Cyfrannu at y Nodau Cenedlaethol.....	41
Adran 3 – Cyflawni'r Cynllun.....	42
3.1 Adfer → Trawsnewid → Gwella – Ein Cynllun 2020 i 2025.....	42
3.2 Ein Ffyrdd o Weithio.....	44
3.3 Ein Llywodraethu a Chefnogi'r Cynllun	49
Adran 4 – Monitro'r Cynllun	59
4.1 Monitro Ein Perfformiad.....	59
4.2 Craffu.....	60
4.3 Yr hyn a ddywedodd y Rheolyddion	62
4.4 Gweithio mewn Partneriaeth.....	64
Adran 5 – Geirfa	65
Adran 6 – Cymryd Rhan	67
Atodiadau.....	68

Adran 1 – Cyflwyniad

1.1 Cyflwyniad gan Arweinydd a Phrif Weithredwr y Cyngor



**Y Cynghorydd Lisa
Mytton**

Arweinydd y Cyngor



Ellis Cooper

Prif Weithredwr



**Dechrau Gorau
i Fywyd**



Bywyd Gwaith



**Lles
Amgylcheddol**



Byw'n Dda

Ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, rydym yn falch o gyflwyno ein cynllun llesiant corfforaethol wedi'i ddiweddarau "Ffocws ar y Dyfodol: Llesiant yn ein cymuned".

Mae hyn yn dilyn yr adroddiad a gyflwynwyd y llynedd ac mae'n parhau i fod yn un o'r cynlluniau pwysicaf mae'r Cyngor hwn wedi'i ddatblygu wrth i ni barhau i adfer yn dilyn pandemig y coronafeirws a symud ymlaen ar hyd ein taith drawsnewid a gwella. Fodd bynnag, byddwn yn adolygu ac yn adnewyddu'r cynllun hwn yn llawn yn 2022. Nid ydym yn mynd i wneud hyn ar ein pen ein hunain, rydym am gael barn ein trigolion, busnesau, partneriaid, staff ac undebau llafur i lywio ein syniadau.

Yn ein cynllun, rydym yn nodi'r hyn rydyn ni'n ei ddisgwyl gan Aelodau Etholedig a Swyddogion y Cyngor i gyflawni ein hamcanion llesiant a'n blaenoriaethau corfforaethol. Yn debyg i'r llynedd, bydd y cynllun hwn yn rhoi ffocws i ni ddarparu ein gwasanaethau'n gynaliadwy ac yn deg er mwyn diwallu anghenion ein trigolion a chefnogi'r cynllun rhanbarthol ehangach.

Mae gennym 4 amcan llesiant, pob un â phrif ganlyniad, gallwch ddarganfod mwy yn Adran 2 y cynllun hwn. Mae ein hamcanion we di'u hintegreiddio â Chynllun Llesiant Rhanbarthol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus [Cwm Taf – Ein Cwm Taf Ni](#). Mae ein cynllun rhanbarthol hefyd yn cael ei adolygu a'i adnewyddu. Cynhaliwyd asesiadau o anghenion yn ddiweddar ar draws y rhanbarth. Er nad yw'r data ar gael yn llawn ar gyfer y cynllun hwn, bydd yn cael ei ddefnyddio i lywio ein cynllun wedi'i adolygu yn ddiweddarach eleni.

Mae'r Pandemig wedigolygu bod 2021 a dechrau 2022 wedi parhau i fod yn eithriadol o heriol i ni i gyd. Fel Cyngor, rydym wedi parhau i ddarparu gwasanaethau i'n trigolion, tra'n ymateb i bandemig byd-eang. Bu hyn yn ymdrech ar y cyd gan Aelodau Etholedig, Swyddogion a Phartneriaid. Mae hyn yn parhau i ddangos sut y gallwn weithio gyda'n gilydd i oresgyn heriau mawr; rhywbeth rydym ni wedi adeiladu arno yn ystod y pandemig a byddwn yn parhau i adeiladu arno wrth symud ymlaen. Mae ein hymateb i'r pandemig wedi parhau i roi cyfleoedd i ni wneud pethau'n wahanol neu yn wir wneud pethau gwahanol. Rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo i weithio'n agos gyda'n cymunedau i'w cynnwys yn y ffordd rydym ni'n symud ymlaen. Fel Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr, rydym am barhau i feithrin cysylltiadau rhwng pobl a grymuso cymunedau i wella lles.

Fel y nodwyd y llynedd, rydym wedi bod yn gweithio gyda Bwrdd Gwella a Sicrwydd a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r bwrdd hwn wedi ein helpu i flaenoriaethu, ailffocysu a chryfhau meysydd allweddol y Cyngor. Arweiniodd hyn at ddatblygu ein '[Cynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella](#)'. Cafodd hwn ei gynnwys yng nghynllun y llynedd ac mae wedi'i ddatblygu ymhellach ac wedi'i gynnwys eto yn y cynllun eleni. Mae hyn yn mynd i'r afael â'n risgiau ar unwaith ond hefyd y risgiau tymor hwy. Rydym wedi parhau i weithio gyda'r cymorth a roddir gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn wedi'i dargedu tuag at ein 3 maes blaenoriaeth fel yr esboniwyd yng nghynllun y llynedd. Mae hyn yn ein helpu i gyflawni'n well ein hamcanion llesiant a'n canlyniadau sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun hwn. Ein 3 blaenoriaeth yw: gwella ein safonau addysg, cynyddu ein gwydnwch ym maes gofal cymdeithasol a chefnogi adferiad economaidd.



Drwy fabwysiadu'r dull hwn byddwn yn mynd i'r afael â'r cwestiwn 'felly beth?' - Rydym ni'n canolbwyntio ar wella canlyniadau i'n trigolion ac mae hyn yn parhau i fod wrth wraidd yr hyn rydyn ni'n ei wneud.


Mae gweithdai amrywiol gydag Aelodau Etholedig, Aelodau Craffu a Swyddogion wedi ein galluogi i gryfhau ymhellach y meysydd blaenoriaeth hyn y cytunwyd arnynt i'w gwella yn unol â disgwyliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Byddwn yn parhau i weithio gyda'n gilydd i fireinio ein cynlluniau i sicrhau eu bod yn parhau i'n helpu i adfer wedi'r pandemig y coronafeirws a'n taith drawsnewid a gwella. Mae hyn yn cynnwys dwyn y naill a'r llall i gyfrif a chanolbwyntio ar gynyddu ein perfformiad ac ansawdd ein gwasanaethau. Wrth wneud hyn rydym hefyd wedi canolbwyntio ar ein gwasanaethau cymorth a sut y gall yr adnodd hwn ein helpu i drawsnewid.

Bydd Aelodau Etholedig yn parhau i arwain datblygiad cymunedol drwy ddod â phobl a chymunedau at ei gilydd. Bydd pawb sy'n rhan o hyn yn defnyddio eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u profiadau i hyrwyddo cyfleoedd i gynnwys y gymuned er mwyn cyflawni newidiadau cadarnhaol a pharhaol. Mae hyn yn cyd-fynd â'n cynlluniau gwella ar gyfer ein swyddogaeth graffu. Mae swyddogion wedi gweithio gydag Aelodau Etholedig, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) a Chynghorau eraill i gynllunio hyn. Edrychwn ymlaen at weld sut mae hyn yn gwella ein canlyniadau wrth symud ymlaen.

Byddwn yn parhau i weithio'n fwy doeth drwy ddefnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy sydd wedi'i nodi fel rhan o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd hyn yn sicrhau bod y penderfyniadau rydyn ni'n eu gwneud yn galluogi gwelliannau cynaliadwy ac yn cefnogi lles y bobl sy'n byw ac yn gweithio ym Merthyr Tudful heddiw ac yn y dyfodol. Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym ni wedi canolbwyntio ar wella ein data a sut rydym yn ei ddefnyddio wrth wneud penderfyniadau. Edrychwn ymlaen at ddatblygu hyn ymhellach yn 2022.



Mae mynd i'r afael â thlodi yn parhau i fod yn ffocws allweddol i ni. Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi astudio'r data sydd ar gael ac wedi deall anghenion ein cymunedau yn well drwy'r asesiad o anghenion rhanbarthol. Rydym ni am fynd â hynny ymhellach eleni. Byddwn yn ymgysylltu â grwpiau i lywio ein cynlluniau wrth symud ymlaen ac yn bwysicaf oll i'n helpu i ddiwallu anghenion ein cymunedau. Mae'r cynllun hwn yn dangos sut [mae mynd i'r afael â thlodi](#) yn thema drawsbynciol. Rydym yn ymwybodol iawn o effaith llymder ar bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y Fwrdeistref Sirol. Rydym yn defnyddio data a chanfyddiadau i ddatblygu model i nodi sut y gallwn fod yn ataliol yn ein dull gweithredu ac meddwl am y tymor hir, yn ogystal â mynd i'r afael â'r anghenion ar unwaith.



Er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni'r cynllun hwn a'r adferiad, y trawsnewid a'r gwelliant a nodir isod yn y ddogfen hon, rhaid i ni hefyd ganolbwyntio ar sut rydym ni'n cefnogi'r gwaith o gyflawni a monitro ein perfformiad. Bydd gwella ein llywodraethu yn parhau i fod yn ffocws i sicrhau ein bod yn gwella'n effeithlon, yn effeithiol ac yn economaidd. Bydd ein gw aith craffu, fel rhan o'n pwyllgorau llywodraethu mewnol a ffurfiol, yn chwarae rhan bwysig yn ein taith drawsnewid a gwella. Mae perfformiad a datblygiad ein staff yn dal i fod yn ffocws i ni. Rydym wedi meithrin ein gallu, gan gynnwys cefnogi ein rhaglen brentisiaethau, a byddwn yn parhau i wneud hynny.

Mae heriau sylweddol o hyd y byddwn ni'n eu goresgyn. Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar fynd i'r afael â'r rhain ac ail-lunio'r sefydliad i ddiwallu anghenion ein trigolion nawr ac i'r dyfodol.

Lisa Mytton

Arweinydd y Cyngor

Ellis Cooper

Prif Weithredwr

CANOLBWYNTIO AR Y DYFODOL – LLESIANT YN EIN CYMUNED

Cryfhau safon Merthyr Tudful fel canolfan rehborthol Blaenau'r Cymoedd, a bod yn lle y gallir ymfalchïo ynddo, a ble hofyd:

Gall pobi dygu a datblygu sgiliau i gyflawni eu huchelgeisiau,

Gall pobi byw, gweithio, a chael bywyd diogel, iach a bodlon,

Gall pobi ymweld, mwynhau a dychwelyd iddo.

Mae pobl a phobl ifanc yn cael y deffraw gorau i fyw ac yn meddi ar ysgiliau ymae eu hangen amrywiol i fyd yn ddiogel i ddyfodolau ac yn seilgion hyderus.

Deffrawau

- Mae plant yn byw mewn amgylchedd cymdeithasol a seilgion.
- Mae plant yn cael meddwl i addysgu yn ysgion ac ydychen ysgion a pharhaidd i ddech.
- Gwneir cerbydau a ddygion i bob pwynt a pharhaidd i ddech.
- Bod plant a phobl ifanc yn mwynhau iechyd a llesedd.

Sut y gwyddom fod pethau'n gwellu?

- Cerbydau a safonau bodysgion i ddygion, umgofion a gwasanaethau yn gwellu.
- Datblygion iechyd a pharhaidd yn gwellu.
- Iechyd a llesedd plant a phobl ifanc yn gwellu.
- Bod gwyddom iechyd a pharhaidd yn gwellu.

Mae pobl yn ffordd cofnogaeth i ddatblygu'r sgiliau priodol i ddarparu anghenion busnesau sydd â seilgion datblygu, diogel, gan weud Merthyr Tudful yn gynghorfa dderodol.

Deffrawau

- Mae Merthyr Tudful yn cyflawni ei pherfformans economaidd iechyd, gyda gwellu meddwl a gwellu cyfnewid cofnogaeth.
- Mae pobl yn gwellu ffordd iechyd yn mwynhau i amgylcheddadau a naturiol, gan ddiogelu a gwellu ffordd iechyd a pharhaidd i ddech.
- Mae gwyddom iechyd a pharhaidd i ddech.
- Mae gwyddom iechyd a pharhaidd i ddech.

Sut y gwyddom fod pethau'n gwellu?

- Ffôn yn Merthyr yn cael gwasanaeth ysgion i fodoni anghenion newydd iochyd.
- Ein hargyngedd a seilgion iechyd a pharhaidd iechyd a pharhaidd i ddech.
- Ein hargyngedd a seilgion iechyd a pharhaidd iechyd a pharhaidd i ddech.
- Pobl a phobl ifanc yn gwellu iechyd a pharhaidd iechyd a pharhaidd i ddech.
- Iechyd a pharhaidd iechyd a pharhaidd i ddech.

Mae cymuned yn diogel, gwellu a hyrwyddo ei hamgylchedd a chael gwellu.

Deffrawau

- Lle iechyd a pharhaidd iechyd a pharhaidd i ddech.
- Gwellu gorau a ddyfodol iechyd a pharhaidd i ddech.
- Bod gwyddom iechyd a pharhaidd i ddech.
- Bod gwyddom iechyd a pharhaidd i ddech.

Sut y gwyddom fod pethau'n gwellu?

- Anfodol iechyd a pharhaidd iechyd a pharhaidd i ddech.
- Anfodol iechyd a pharhaidd iechyd a pharhaidd i ddech.
- Anfodol iechyd a pharhaidd iechyd a pharhaidd i ddech.
- Anfodol iechyd a pharhaidd iechyd a pharhaidd i ddech.
- Anfodol iechyd a pharhaidd iechyd a pharhaidd i ddech.

Mae pobl yn cael eu gallu i fyw'n amgylchedd yn eu cymunedau, lle maent yn ddiogel ac yn mwynhau iechyd a pharhaidd iechyd a pharhaidd i ddech.

Deffrawau

- Mae pobl yn byw iechyd a pharhaidd iechyd a pharhaidd i ddech.
- Gwellu plant a pharhaidd iechyd a pharhaidd i ddech.
- Mae pobl ifanc yn byw iechyd a pharhaidd iechyd a pharhaidd i ddech.

Sut y gwyddom fod pethau'n gwellu?

- Bod iechyd a pharhaidd iechyd a pharhaidd i ddech.
- Bod iechyd a pharhaidd iechyd a pharhaidd i ddech.
- Bod iechyd a pharhaidd iechyd a pharhaidd i ddech.
- Bod iechyd a pharhaidd iechyd a pharhaidd i ddech.
- Bod iechyd a pharhaidd iechyd a pharhaidd i ddech.

Byddwn yn mynd i'w darparu ein holl gwasanaethau.

Byddwn yn mynd i'w darparu ein holl gwasanaethau.	Byddwn yn mynd i'w darparu ein holl gwasanaethau.	Byddwn yn mynd i'w darparu ein holl gwasanaethau.	Byddwn yn mynd i'w darparu ein holl gwasanaethau.
Byddwn yn mynd i'w darparu ein holl gwasanaethau.	Byddwn yn mynd i'w darparu ein holl gwasanaethau.	Byddwn yn mynd i'w darparu ein holl gwasanaethau.	Byddwn yn mynd i'w darparu ein holl gwasanaethau.
Byddwn yn mynd i'w darparu ein holl gwasanaethau.	Byddwn yn mynd i'w darparu ein holl gwasanaethau.	Byddwn yn mynd i'w darparu ein holl gwasanaethau.	Byddwn yn mynd i'w darparu ein holl gwasanaethau.

Byddwn yn mynd i'w darparu ein holl gwasanaethau.

1.3 Diben Ein Cynllun Ffocws ar y Dyfodol

O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, rhaid i gyrff cyhoeddus yng Nghymru weithio mewn ffordd gynaliadwy i gyflawni'r weledigaeth gyffredin i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol Cymru. Felly, mae angen i ni sicrhau, pan fyddwn ni'n gwneud penderfyniadau, ein bod yn ystyried yr effaith y gallent ei chael ar y bobl sy'n byw ym Merthyr Tudful yn awr ac yn y dyfodol. Nodir y rhain yn y 5 ffordd o weithio (egwyddor datblygu cynaliadwy).

Mae'r Ddeddf yn golygu bod gennym Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i Gymru. Rôl y Comisiynydd yw gweithredu fel gwarcheidwad er budd cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru a chefnogi cyrff cyhoeddus sydd wedi'u rhestru yn y Ddeddf i weithio tuag at gyflawni'r saith Nod Llesiant cenedlaethol.

Yn ogystal â bod eisiau eich hysbysu a'ch cynnwys yn ein cynlluniau, mae gennym ddyletswydd o dan 'Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i gyhoeddi ein hamcanion llesiant a'n datganiad ategol (Ein Datganiad Llesiant) ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, sy'n dangos sut rydym yn cyfrannu at y 7 nod llesiant cenedlaethol. Fel rhan o'r cynllun hwn, rydym hefyd yn cyhoeddi ein blaenoriaethau allweddol ar gyfergwella.


Saith nod llesiant

Mae'r Ddeddf yn nodi am y tro cyntaf yn ôl y gyfraith, fod cyrff cyhoeddus yn gweithio tuag at yr un diben. Mae'r Ddeddf yn rhoi 7 nod llesiant cenedlaethol ar waith sy'n cynrychioli'r weledigaeth gyffredin ar gyfer Cymru ac yn ei gwneud yn glir bod yn rhaid i'r cyrff cyhoeddus sydd wedi'u rhestru weithio i gyflawni'r holl nodau ac nid dim ond 1 neu 2 ohonynt.

Datblygu Cynaliadwy

Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar gyrff cyhoeddus i fabwysiadu datblygiad cynaliadwy fel y brif egwyddor drefniadol wrth bennu amcanion llesiant a chymryd camau i gyflawni'r amcanion hynny.

Mae'r Ddeddf yn cadarnhau mai datblygu cynaliadwy yw'r brif egwyddor drefniadol mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus ei chymhwyso wrth wneud penderfyniadau a chymryd camau i gyflawni eu hamcanion llesiant.



"rhaid i gyrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a'r naill a'r llall, ac atal problemau parhaus fel tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd."

(Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol: Sophie Howe)

Pum Ffordd o Weithio

Yn y Ddeddf, mae datblygu cynaliadwy yn cael ei enghreifftio gan 5 ffordd o weithio. Mae ffyrdd o weithio o mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus eu mabwysiadu i ddangos sut maen nhw wedi defnyddio datblygu cynaliadwy fel eu prif egwyddor drefniadol. Mae dilyn y ffyrdd hyn o weithio yn cynnig cyfle enfawr i wneud newid cadarnhaol, hirhoedlog i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Mae manylion am sut rydym ni wedi newid ein ffyrdd o weithio yn unol â'r egwyddorion datblygu cynaliadwy isod yn y ddogfen hon.



Tymor Hir



Atal



Integreiddio



Cydweithio



Ymglymiad

Ein Cynllun Ffocws ar y Dyfodol


Yn ein Datganiad Lles, rydym yn nodi cwmpas pob Amcan Llesiant ac yn amlinellu pam rydym o'r farn y bydd cyflawni'r Amcan Llesiant yn gwneud y mwyaf o'n cyfraniad at gyflawni'r 7 Nod Llesiant cenedlaethol.

Yn y cynllun hwn, rydym yn nodi sut rydyn ni'n bwriadu cyflawni ein hamcanion llesiant. Mae hyn yn cynnwys blaenoriaethau cysylltiedig, manylion cynlluniau a strategaethau allweddol, a sut fydd y cynllun yn cael ei ariannu.

Rydym yn adolygu ein cynllun yn flynyddol i sicrhau bod y blaenoriaethau, y cynlluniau a'r strategaethau allweddol yn parhau'n berthnasol ac yn cyd-fynd yn glir â'n hamcanion llesiant. Mae hwn yn amlinellu'r newidiadau a wnaed fel rhan o'r adolygiad hwn a'r rhesymeg. Yn ogystal, byddwn hefyd yn cyhoeddi [Adroddiad Perfformiad Blynyddol](#), a fydd yn gwerthuso'r cynnydd rydym wedi'i wneud.

Mae pethau'n newid ychydig yn 2022. Byddwn yn adolygu ac yn adnewyddu ein Cynllun Llesiant Corfforaethol er mwyn sicrhau ein bod yn dal i ddiwallu anghenion ein cymunedau. Byddwn yn defnyddio'r canfyddiadau o'r gwaith ymgysylltu ac ymgynghori fydd yn cael ei wneud yn ein rhanbarth ac yn adeiladu ar hyn. Byddwn hefyd yn cynhyrchu ein 'Adroddiad Hunanasesu' cyntaf i gyflawni ein dyletswyddau o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Bydd yr adroddiad hwn yn disodli ein Hadroddiad Perfformiad Blynyddol.

Mae'r diagram gyferbyn yn ddarlun syml i ddangos sut mae ein cynllun yn eistedd mewn perthynas â'r gwaith rhanbarthol ar draws Cwm Taf.



1.4 Cynnwys ein Cymunedau

Mae gan Fwrdeistref Sirol Merthyr Tudful boblogaeth o tua 60,000; mae hynny'n fwy o bobl fesul cilomedr sgwâr na Chymru yn ei chyfanrwydd. Mae crynodeb o'r Fwrdeistref Sirol, o'i gymharu â gweddill Cymru, yn dangos bod gan Ferthyr Tudful:


- y 4^{ydd} canran uchaf o bobl o dan 16 oed yng Nghymru;
- y 3^{ydd} canran isaf o bobl dros 65 oed yng Nghymru;
- yr 2^{il} ganran uchaf o bobl sy'n hawlio budd-daliadau yng Nghymru;
- 3^{ydd} treth gyngor band D ar gyfartaledd uchaf yng Nghymru.

(Wedi'i gymryd o (ffynhonnell): www.mylocalcouncil.info; Chwefror 2022)

Mae 11 o Adrannau Etholiadol (wardiau) ym Merthyr Tudful, sy'n cael ei cynrychioli gan 33 o Gynghorwyr Ward. Mae ein Cynghorwyr yn chwarae rôl arweiniol fel llysgenhadon cymunedol, gan helpu i ddarparu gwybodaeth gymunedol a helpu i rymuso pobl leol i wella eu cymunedau drwy ddarparu cyngor, arweiniad a chymorth ymarferol.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful (MTCBC), awdurdod unedol, yn cyflogi 1,297 o staff corfforaethol a 1,179 o staff mewn ysgolion.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gofyn am lefel fwy 'gweithredol' o gyfranogiad cymunedol er mwyn cyflawni canlyniadau. Fel Cyngor, mae hyn yn golygu bod angen i ni gynnwys ein cymunedau yn y gwaith o gynllunio a dylunio gwasanaethau, ynghyd â chynnwys cymunedau i ddeall sut y byddan nhw'n cael eu heffeithio.



Beth ddywedodd ein hasesiad Lles Cwm Taf a'n hasesiad poblogaeth Chwm Taf wrthym?

Mae Cwm Taf yn cynnwys 2 ardal awdurdod lleol, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf. Cynhyrchwyd asesiad poblogaeth Cwm Taf ac asesiad Llesiant Chwm Taf ym mis Mawrth 2017, gan osod sail i'n cynlluniau lleol a rhanbarthol. Rydym wedi parhau i adolygu ein hamcanion i sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar ganlyniadau'r asesiadau hyn.

Cafodd yr asesiadau o anghenion a gynhaliwyd yn 2021 (ac a fydd yn cael eu defnyddio mewn cynlluniau ar gyfer y dyfodol) eu cynnal ar draws Cwm Taf Morgannwg. Dylid nodi bod Cwm Taf Morgannwg yn cynnwys 3 ardal awdurdod lleol, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Phen-y-bont ar Ogwr. Ar ôl eu dadansoddi, bydd asesiadau anghenion 2021 yn cael eu defnyddio i lywio ein cynllun Llesiant corfforaethol a chynlluniau strategol eraill.

Fodd bynnag, mae'r cynllun hwn wedi'i seilio ar yr asesiadau o anghenion a gynhaliwyd yn 2017, hyd nes y cyhoeddir y cynllun newydd yn ddiweddarach yn 2022.

Cynhaliwyd [Asesiad Llesiant Cwm Taf](#) drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (PSB) i gydweithio i wella gwasanaethau a chymunedau ar draws y rhanbarth. Mae'r adroddiad yn esbonio sut mae gan gymunedau eu hunaniaeth eu hunain a dangosodd y data ddemograffeg y boblogaeth a thueddiadau tebygol e.e. rhagwelir cynnydd mawr yn yr ystod oedran dros 85 oed, gan newid y ffordd rydyn ni'n ystyried gofal cymdeithasol yn y tymor hir. Fe wnaeth y gwaith hwn lywio Cynllun Llesiant y PSB a'n themâu a'n Hamcanion Llesiant.

Cynhaliwyd [Asesiad Poblogaeth Cwm Taf](#) yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'n ystyried 4 colofn y Ddeddf (sef, Lles, Pobl, Partneriaeth ac Atal) a 3 maes allweddol sef: 'Pa lefel o ofal a chymorth sydd ei hangen?'; 'Ble mae'r bylchau a sut i'w llenwi?'; 'Sut mae angen i wasanaethau newid er mwyn sicrhau eu bod yn darparu'r lefel honno o ofal a chymorth a gwasanaethau ataliol?'. Y casgliad oedd 6 themâu gyffredinol: Defnyddio ein Data yn fwy effeithiol; Gwybodaeth – Darganfod mwy am wasanaethau cymorth; Cysylltiadau; Gweithio gyda'n gilydd; Rhoi diwedd ar broblemau cyn iddynt ddechrau, neu waethygu; Ei wneud yn bersonol – pobl yn gwrando arnoch chi ac yn eich deall. Mae hyn yn llywio sut mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (RPB) a MTCBC yn gweithio. Mae hyn wedi llywio amcanion rhanbarthol a lleol, gan gynnwys themâu allweddol yn ein [Cynllun Adfer, Trawsnewid a Gwellu](#).

Datblygu Gweithredu Cymunedol

Byddwn yn parhau i roi cymorth i'n Cynghorwyr fel y gallant wneud gwaith yn y gymuned a chefnogi mentrau sy'n cael eu harwain gan y gymuned lle bo angen. Fe welwch enghreifftiau o waith grŵp cymunedol sydd wedi digwydd ledled y Fwrdeistref Sirol drwy fynd i'n tudalen we ['Cylchgrawn Cyswllt'](#).

Mae nifer o weithgareddau cydweithredol cymunedol eisoes yn cael eu datblygu ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Datblygu gweithgareddau yn barhaus o fewn Ardal Dreftadaeth Cyfarthfa;
- Lanswyd ein strategaeth Codi Dyheadau Codi Safonau ym mis Medi 2021, ac mae gwaith yn mynd rhagddo bellach gyda rhanddeiliaid allweddol i gyflawni hyn;
- Byddwn yn dechrau cyflawni ein gweledigaeth economaidd 15 mlynedd ar gyfer y Fwrdeistref Sirol, yn cydweithio â busnesau lleol; mentrau cymdeithasol a phartneriaid allweddol i ddechrau gweithio ar amrywiaeth o weithgareddau; a
- Bydd ein prosiectau sy'n ymwneud â mynd i'r afael ag anghenion diweithdra a hyfforddiant yn parhau, i gefnogi ein cymunedau gan ddefnyddio adborth gan gyfranogwyr i ddatblygu cyrsiau dylunio hysbysebion a gweithgareddau dysgu.

2.1 Ein Gweledigaeth Gyffredin

Byddwn yn adolygu ein gweledigaeth fel rhan o'n Cynllun Trawsnewid, Gwella ac Adferer mwyn sicrhau ein bod yn dal i ddiwallu anghenion ein cymunedau.

Bydd ein hamcanion llesiant lleol a rhanbarthol yn cael eu hadolygu a'u diweddarau fel rhan o ymgysylltu â'r gymuned yn ôl y gofyn.



2.2 Ein Themâu a'n Hamcanion Llesiant – Crynodeb

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus weithio'n well gyda'i gilydd a gyda chymunedau drwy gymryd rhan a thrwy fabwysiadu dull cydweithredol. Mae hyn yn gynyddol bwysig er mwyn ymateb i'r heriau rydyn ni'n eu hwynebu.

Er mwyn pennu ein hamcanion Llesiant, fe wnaethom gyfrannu at ddatblygu asesiad o anghenion ar y cyd ar draws Cwm Taf. Gallwch ddarllen mwy am yr asesiadau Llesiant ar wefan '[Ein Cwm Taf](#)'. Cafodd hyn ei gwblhau i lywio'r gwaith o ddatblygu'r Datganiad Lles ac wedi hynny arweiniodd at ddatblygu amcanion Llesiant y Cyngor. Mae'r 4 thema a'r amcanion a gyflwynwyd yn iteriad 2020/2021 y Cynllun yn aros yr un fath ar gyfer y cynllun hwn ar gyfer 2021/2022.

Byddwn yn adolygu ac yn adnewyddu ein Cynllun Llesiant Corfforaethol 2022 gan ddefnyddio canfyddiadau'r asesiadau o anghenion a gynhaliwyd yn 2021 ar draws y rhanbarth.

Thema Llesiant	Amcan	Prif Ganlyniad
 Dechrau Gorau	Mae plant a phobl ifanc yn cael y dechrau gorau i fywyd ac maen nhw'n meddu ar y sgiliau maen nhw eu hangen i fod yn ddysgwyr llwyddiannus ac yn unigolion hyderus.	Gwella'r canlyniadau a ddysgol ar gyfer pob plentyn a phobl ifanc
 Bywyd Gwaith	Mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i ddiwallu anghenion busnesau, gyda seilwaith diogel sy'n datblygu ac sy'n gwneud Merthyr Tudful yn gyrchfan ddeniadol.	Datblygu'r amgylchedd a'r seilwaith i fusnesau ffynnu
 Amgylcheddol Lles	Mae cymunedau'n diogelu, yn gwella ac yn hyrwyddo ein hamgylchedd a chefn gwlad.	Manteisio i'r eithaf ar y deunydd a'r adnoddau sy'n cael eu haildefnyddio a'u hailgylchu yn unol â'r hierarchaeth gwastraff
 Byw'n Dda	Mae gan bobl y grym i fyw'n annibynnol yn eu cymunedau, lle maen nhw'n ddiogel ac yn mwynhau iechyd corfforol a meddyliol da.	Sicrhau bod pobl yn gallu byw'n annibynnol ac yn ddiogel yn eu cymunedau

Yn y cynllun hwn, rydym yn nodi'r camau y byddwn ni'n eu cymryd i sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar ein cyfraniad at y blaenoriaethau corfforaethol a'r amcanion Llesiant. Bydd y cynllun hwn yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n cael ei wneud i gyflawni'r Amcanion Llesiant, gan gynnwys blaenoriaethau corfforaethol allweddol a chynlluniau a strategaethau cysylltiedig.

Ers cyhoeddi fersiwn 5 (2021-22) o'n cynllun, rydym wedi datblygu ein cynllun 'Cynllun Adfer, Trawsnewid a Gwellu 2020 - 2025' ymhellach. Yma rydym wedi nodi meysydd mae angen i ni eu gwella er mwyn darparu'r gwasanaethau mae ein trigolion eu hangen nawr ac yn y dyfodol. Mae hyn yn golygu ein bod wedi blaenoriaethu meysydd i gyflawni ein hamcanion llesiant yn well mewn modd cynaliadwy a theg. Mae'r adran '→ → Adfer, Trawsnewid a Gwellu – Ein Cynllun 2020 i 2025' isod yn rhoi mwy o fanylion am y cynllun.

Rydym yn parhau i weithio gyda thimau o bob rhan o'r Cyngor i ailffocysu ein strategaethau. Rydym yn defnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac yn gwneud pethau gwahanol neu'n gwneud pethau'n wahanol. Rydym yn parhau i ddefnyddio ein 'Strategaeth ar Dudalen' hawdd ei deall ar gyfer pob amcan llesiant i'n helpu i gyflawni ein canlyniadau. Mae'r rhain yn cael eu hystyried gan bob tîm wrth iddynt gwblhau'r broses hunanarfarnu gorfforaethol: y prif gyfrwng sy'n cael ei ddefnyddio i ystyried p'un a ydym yn gwneud gwahaniaeth.

Fel yn yr un modd â blynyddoedd blaenorol, rydym yn parhau i ddysgu gwersi a chryfhau'r ddarpariaeth ymhellach yn unol â'n canlyniadau y cytunwyd arnynt. Mae nifer o enghreifftiau o sut y byddwn yn gwneud hyn:

- gweithdai pwyllgor craffu integredig i ganolbwyntio ar agweddau neu bynciau allweddol;
- gweithgorau cydweithredol i archwilio cyfleoedd ar gyfer cynllunio ar y cyd a darparu gwasanaethau gyda phartneriaid mewnol ac allanol; a
- sesiynau her beirniadol traws-wasanaeth i 'brofi' ac archwilio syniadau, canfyddiadau allweddol gweithgareddau a rhannu'r gwersi a ddysgwyd yn ehangach.

Mae ein Cynllun Adfer, Trawsnewid a Gwellu hefyd yn nodi ffyrdd y gall ein gwasanaethau cymorth helpu i gyflawni ein blaenoriaethau. Ni allwn gyflawni hyn ar ein pen ein hunain ac rydym wedi nodi ein partneriaid allweddol yr ydym yn cydweithio â nhw i gyflawni'r amcanion llesiant a'r blaenoriaethau corfforaethol.

Er mwyn datblygu mwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r newidiadau sy'n digwydd, ac er mwyn galluogi staff a phartneriaid i nodi sut maen nhw'n gweithio a sut maen nhw'n ffurfio yn y darlun ehangach, mae gennym ddogfen 'Gweledigaeth Gyffredin' sy'n cysylltu nid yn unig â blaenoriaethau'r Cyngor, ond hefyd â blaenoriaethau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus rhanbarthol.

2.3 Ffocws ar y Dyfodol – Ein taith hyd yma

Rydym wedi darparu crynodeb cam wrth gam isod o'n taith hyd yma o ran darparu ein gwasanaethau yn dilyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Rydym ni wedi gallu edrych ar yr hyn rydyn ni'n ei wneud a sut rydym ni'n ei wneud. Byddwch yn sylwi o fersiynau blaenorol o'n Cynllun Ffocws ar y Dyfodol (y cyfeirir ato weithiau fel ein Cynllun Corfforaethol neu Gynllun Llesiant Corfforaethol) ac Adroddiadau Perfformiad Blynyddol, ein bod wedi gallu canolbwyntio mwy ar ein hamcanion llesiant a'n canlyniadau. Bydd hyn yn cael ei gryfhau ymhellach yn 2022 gan ein bod wedi nodi meysydd allweddol i'w gwella fel rhan o'n Cynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella (RTI) ac wrth i ni adolygu ac adnewyddu ein Cynllun Ffocws ar y Dyfodol - Llesiant Corfforaethol.

2015-2016



Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cael Cydsyniad



Cynhelir Asesiad Poblogaeth ar y cyd i nodi anghenion cymunedol ar draws Cwm Taf

2016-2017



Gweithiodd Aelodau a Swyddogion Etholedig gyda'i gilydd i adeiladu'r Cynllun Llesiant



Y Cynllun Llesiant Corfforaethol – Canolbwyntio ar y Dyfodol: mae llesiant yn ein cymuned yn cael cymeradwyaeth y Cyngor



Mae'r Cyngor yn dechrau darparu gweithgareddau/gwasanaethau i wneud cynnydd yn erbyn ei flaenoriaethau corfforaethol a'i

2018-2019



Mae swyddogaeth graffu'r Cyngor yn adolygu ac yn craffu ar yr Adroddiad Craffu Blynnyddol - adroddiad sy'n edrych yn ôl sy'n dangos perfformiad ac effaith a wnaed drwy'r flwyddyn gyntaf o gyflawni Ffocws ar



Y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cynhyrchu Gynllun Llesiant cyntaf 'Ein Cwm Taf'



Working Better Together

Gydag amcanion mwy integredig a gan ddefnyddio gwersi a ddysgwyd drwy gydol Blwyddyn 1, mae'r Cyngor yn defnyddio'r 5 ffordd o weithio gyda'r nod o gael y budd mwyaf o'u heffaith ar ei



Ar ddiwedd Blwyddyn 1, fe wnaethom adolygu ac ailffocysu; mae'r 9 amcan a osodwyd i ddechrau o fewn y Cynllun yn gostwng i 4 yn



Drwy gydol y flwyddyn gyntaf o gyflawni, adolygodd pwyllgorau craffu'r Cyngor gynnydd yn gyson yn erbyn y Cynllun, gan ddarparu her ac adborth.



Ar ddiwedd Blwyddyn 2, fe wnaethom adolygu ac ailffocysu'r Cynllun, ac mae bellach yn dangos ein dull newydd gan ddefnyddio'r 5 ffordd o weithio e.e. darparu gwasanaethau sy'n fwy integredig; cydweithio



Wedi ail-lansio proses hunanarfarnu gorfforaethol i gefnogi adolygiad statws, cydnabod arfer da; a nodi meysydd i'w datblygu a blaenoriaethau ar gyfer gwella



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Yn dilyn ymweliad archwilio; lluniodd Swyddfa Archwilio Cymru (Archwilio Cymru bellach) adroddiad ar ddefnydd y Cyngor o'r 5 ffordd o weithio. Mae'r adroddiad yn dangos cynnydd da ac yn cynnig camau gweithredu ar



Mae strategaeth DDRAFFT y Cyngor ar gyfer Trechu Tlodi wrthi'n cael ei datblygu ac mae swyddogion yn archwilio'r cyfleoedd i integreiddio hyn yn ei Gynllun Corfforaethol er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd



2020-21

TO DO LIST

- ☒ Parhau i hunanwerthuso
- ☒ Archwilio mynd i'r afael â thlodi
- ☒ Adnewyddu/ailffocysu/adolygu'
- ☒ Datblygu dulliau 5 ffordd o weithio
- ☒ Adolygu a gwella llywodraethu



2021-22

- ☒ Parhau i ymateb i bandemig y coronafeirws a newid i adferiad
- ☒ Cyflawni ein Cynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella (gan ganolbwyntio ar ein blaenoriaethau ar gyfer gwella)
- ☒ Gweithio gyda'n Bwrdd Gwella a Sicrwydd drwy barhau i ganolbwyntio ar ein sefyllfa o ran llywodraethu, perfformiad a sefyllfa ariannol
- ☒ Sicrhau ein bod yn parhau i ganolbwyntio ar drechu tlodi
- ☒ Parhau i hunanwerthuso a pharatoi ar gyfer gofynion y Ddeddf Llywodraeth Leol a'r Ddeddf Etholiadau
- ☒ Sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu ein gwasanaethau drwy ddefnyddio'r 5 ffordd o weithio a chefnogi'r gwaith o gyflawni'r 7 nod cenedlaethol
- ☒ Cyflwyno newidiadau eraill i ddeddfwriaeth, er enghraifft y Ddyletswydd Economaidd -Gymdeithasol newydd a osodwyd ar y Cyngor



Symud i 2022/23

- ☐ Parhau i ymateb i'r pandemig y coronafeirws ac adfer yn dilyn y pandemig
- ☐ Parhau i gyflawni ein Cynllun Gwella, Trawsnewid ac Adfer (gan ganolbwyntio ar ein blaenoriaethau ar gyfer gwella)
- ☐ Gweithio gyda'n Bwrdd Gwella a Sicrwydd a phontio i fod yn hunangynhaliol
- ☐ Parhau i ganolbwyntio ar drechu tlodi
- ☐ Parhau i hunanwerthuso a gweithredu'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau
- ☐ Sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu ein gwasanaethau drwy ddefnyddio'r 5 ffordd o weithio a chefnogi'r gwaith o gyflawni'r 7 nod cenedlaethol






Ffocws ar...Drechu Tlodi

Yn ein hadroddiad Ffocws ar y Dyfodol fersiwn 4, cyflwynwyd ffocws trawsbynciol ar drechu tlodi. Mae hyn yn un o brif achosion llawer o faterion rydyn ni'n eu hwynebu nawr ac y byddwn ni'n eu hwynebu yn y dyfodol, yn enwedig yn dilyn pandemig y coronafeirws. Nodwyd y cylch tlodi a oedd yn dangos y gall y ffordd rydyn ni'n gweithio ar draws ein hamcanion gael effaith gadarnhaol ar y cylch. O'r herwydd, mae angen i ni integreiddio ein strategaethau a chydweithio i fynd i'r afael â'r mater ofnadwy hwn. Rydyn ni'n defnyddio'r 5 ffordd o weithio i drechu tlodi, ac wrth wneud hynny, ein helpu i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r 7 nod cenedlaethol yn well.

Mae sawl adroddiad wedi amlinellu sut y gall effeithiau pandemig y coronafeirws gael effaith andwyol ar gymunedau sydd eisoes yn profi lefelau uchel o amddifadedd. Cynhyrchodd 'Centre for Towns' eu hadroddiad o'r enw 'Effaith pandemig COVID-19 ar ein trefi a'n dinasoedd' ym mis Ebrill 2020. Yn yr adroddiad hwn, nodwyd bod trefi sy'n dibynnu'n fawr ar fanwerthu a thafarndai a bwytai a chyn-drefi diwydiannol wedi cael eu heffeithio. Cafodd yr adroddiad hwn, ac adroddiadau tebyg eraill, eu defnyddio wrth ddatblygu ein blaenoriaethau yn ein Cynllun RTI i ddeall yn well sut i flaenoriaethu ein trawsnewidiad (dyma pam mae'r flaenoriaeth 'Adferiad Economaidd' yn cael ei datblygu). Felly, bydd Adferiad Economaidd yn chwarae rhan fawr wrth drechu tlodi.

Mae'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn ein galluogi i adnewyddu ein ffocws ar sut rydym ni'n asesu effeithiau ar anfantais economaidd-gymdeithasol ac yn sicrhau tegwch wrth wneud penderfyniadau. Byddwn yn parhau i sicrhau bod gwasanaethau'n ystyried sut y gallwn drechu tlodi er mwyn lleihau'r effaith ar ein cymunedau. Ar hyn o bryd rydym yn cyflawni lluo o wasanaethau mewn partneriaeth â sefydliadau eraill sy'n helpu i wneud hyn.

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, rydym ni wedi cynhyrchu rhestr o'r prif gyfranwyr i fynd i'r afael â thlodi a sut maen nhw'n ein helpu i gyfrannu at y 7 nod cenedlaethol. Rydym yn parhau â'r gwaith hwn, gan adeiladu ar y gwaith rydym wedi'i wneud eisoes. Mae rhywfaint o'r gwaith hwn wedi'i gynnwys yn ein Hadroddiad Perfformiad Blyneddol (APR) a gynhyrchwyd yn gynharach eleni a byddwn yn cynnwys mwy yn ein hadroddiad hunanas esu yn ddiweddarach eleni.



2.4 Ein Hamcanion Llesiant – Y manylion

Fel sydd wedi'i nodi uchod, rydym ni'n gosod ein themâu llesiant drwy ddatblygu'r asesiad o anghenion ar y cyd ar draws Cwm Taf, a'r canfyddiadau o'r asesiad hwn. Mae hyn hefyd yn llywio'r Datganiad Llesiant a datblygiad amcanion llesiant y Cyngor. Pan fyddwn yn adolygu ac yn adnewyddu'r cynllun hwn yn ddiweddarach eleni, bydd canfyddiadau'r asesiadau o anghenion rhanbarthol a gynhaliwyd yn 2021 yn barod i'w defnyddio.

Mae'r tablau yn yr adrannau isod yn amlinellu'r meysydd gwasanaeth o bob rhan o MTCBC a'n partneriaid sy'n cydweithio i gyflawni'r amcanion llesiant a'r blaenoriaethau corfforaethol. Mae crynodeb o'r manylion isod yn ein dogfennau '[Crynodeb o'r Cynllun Corfforaethol](#)' a '[Gweledigaeth Gyffredin](#)'. Er mwyn canolbwyntio ar ein trawsnewid, rydym ni hefyd wedi cynnwys ein blaenoriaethau gwella.

Mae manylion themâu ac amcanion llesiant Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful i'w gweld isod.



Dechrau Gorau i Fywyd



Aelod Portffolio
Y Cyngorydd Lisa
Mytton

Amcan	Mae plant a phobl ifanc yn cael y dechrau gorau i fywyd ac yn meddu ar y sgiliau maen nhw eu hangen i fod yn ddysgwyr llwyddiannus ac yn unigolion hyderus
Prif Ganlyniad	Gwellu'r canlyniadau addysgol ar gyfer pob plentyn a phobl ifanc
Swyddog Arweiniol	Cyfarwyddwr - Dysgu
Ffocws ar Wella	Gwellu ein Safonau Addysg

Mae lles ein plant a'n pobl ifanc o'r pwys mwyaf, hyd yn oed yn fwy felly wrth i ni symud allan o bandemig y coronafeirws. Pan fydd gan ieuchyd a lles plant a phobl ifanc yn well, maen nhw'n fwy tebygol o fod yn barod i ddysgu ac yn y pen draw cyflawni safonau academiaidd gwell. Mae codi safonau cyrhaeddiad yn flaenoriaeth allweddol i'r Cyngor ond mae'n rhaid gosod hyn yng nghyd-destun adferiad ar ôl y pandemig a gweithio mewn partneriaeth. O'r cyfle cyntaf posibl, rydym ni'n cydnabod yr angen i weithio gyda theuluoedd i sicrhau bod ein plant yn cael y cymorth gorau i ddysgu'r sgiliau maen nhw eu hangen i gyrraedd eu nodau a'u potensial academiaidd. Mae'n bwysig sylweddoli fod yr uchelgais hwn yn fusnes i bawb, mae gan leoliadau blynyddoedd cynnar; teuluoedd; lleoliadau ieuencid, ysgolion a phartneriaid ehangach rôl allweddol i'w chwarae o ran cefnogi ein plant a'n pobl ifanc i gyflawni'r Dechrau Gorau i Fywyd.

Isod mae enghreifftiau o sut mae adrannau MTCBC yn cyfrannu at yr amcan llesiant hwn.

Yr Adran Addysg	Gwasanaethau Plant	Adrannau Eraill
Gwellu Ysgolion	Gwasanaeth Ieuencid	Adran parciau
Anghenion Dysgu Ychwanegol	Y Blynyddoedd Cynnar	Rhaglenni cyflogadwydd
Gwasanaeth Cerdd	Dysgu Cymunedol Oedolion	Merthyr Actif
Cynhwysiant a Lles	Tim NEET	Gwasanaethau Eiddo ac Ystadau

Yr Iaith Gymraeg - WESP	Tîm rhianta	Adnoddau Dynol
Saesneg fel Iaith Ychwanegol (EAL)	Tîm o Amgylch y Teulu	Y Gymraeg – Gweithlu a Chydymffurfio
Cynllunio Ysgolion ac Adnoddau Cefnogi	Tîm Plant sy'n Derbyn Gofal	Diogelwch ar y Ffyrdd
	Chwarae	Cydraddoldeb
	Diogelu	Cludiant i'r Ysgol
		TGCh/ TGCh Ysgolion

Mae partneriaid eraill sy'n cyfrannu at gyflawni'r amcan llesiant hwn, ac mae'r rhain wedi'u rhestru isod.

Ysgolion	Llywodraethwyr Ysgol	Consortiwm Canolbarth y De
Estyn	Awdurdodau Lleol Eraill	Fforwm Ieuenctid Bwrdeistref Merthyr Tudful (MTBWYF)
Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg	Y Coleg Merthyr Tudful	Llywodraeth Cymru
Aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus	Gyrfa Cymru	Canolfannau gweithgareddau awyr agored
Lles Merthyr (gan gynnwys gwasanaethau llyfrgell)	Prifysgolion	Dug Caeredin
Aelodau'r Fforwm Addysg Gymraeg	Lleoliadau Blynyddoedd Cynnar	Sefydliadau'r trydydd sector
Cyflogwyr a busnesau	Iechyd y Cyhoedd	

Mae'r amcan llesiant hwn yn cynnig dull cyfannol a chynaliadwy o ddiwallu anghenion llesiant plant a phobl ifanc. Mae'r dull hwn yn bwysig i bob plentyn, hyd yn oed yn fwy felly oherwydd pandemig y coronafeirws a bydd o fudd arbennig i blant sy'n wynebu anfantais neu sydd â risg uchel o ganlyniadau gwael yn ddiweddarach mewn bywyd.

Addysg yw un o'r rhagfynegyddion clir i'w ganlyniadau bywyd, fel cyflogaeth, incwm a statws cymdeithasol, ac mae'n rhagfynegi agweddau a lles. Mae'r amcan yn integreiddio'r daith addysgol gyflawn, o'r blynyddoedd cynnar hyd at addysg orfodol, ac ôl-16 ac yn ceisio rhoi'r sgiliau a'r priodolddau i blant a phobl ifanc i'w helpu i wella eu bywydau eu hunain.

Y canlyniadau allweddol mae Dechrau Gorau i Fywyd am eu cyflawni yw:

- Mae plant yn byw mewn amgylchedd cartref sy'n meithrin ac yn ysgogi;
- Mae addysg cyn-ysgol ac addysg ysgol o ansawdd uchel ar gael i blant;
- Gwellu canlyniadau addysgol ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc; ac
- Mae iechyd a lles emosiynol plant a phobl ifanc yn dda.

Rydym ni'n cydnabod y canlyniadau ar gyfer Dechrau Gorau i Fywyd ac wrth i'r gwaith hwn ddatblygu mae'r rhain wedi'u hintegre iddio i strategaeth gyffredinol - Codi Dyheadau Codi Safonau (RARS). Nod y strategaeth hon yw cyflawni'r prif ganlyniad ar gyfer gwella'r canlyniadau addysgol i bob plentyn a pherson ifanc drwy'r themâu a'r nodau canlynol:



Thema 1: Partneriaeth a Chydweithio	Thema 2: Adfer ar ôl y Pandemig
Nod 1: Rheoli Perfformiad a Llywodraethu Systemau	
Nod 2: Datblygu'r Gweithlu Addysg	
Nod 3: Cefnogi Iechyd a Lles Dysgwyr	
Nod 4: Gwella Cyflawniad a Dilyniant	
Nod 5: Datblygu'r Amgylchedd ar gyfer Dysgu	

[Sut fyddwn ni'n gwybod ydy pethau'n gwella?](#)

Mae pob amcan yn defnyddio fframwaith rheoli perfformiad cyson sy'n cael ei ddal ar adnodd o'r enw SOAP – 'Strategy On A Page', Strategaeth ar Dudalen. Mae'r ddogfen hon yn nodi'r amcan llesiant, y canlyniadau a'r dangosyddion perfformiad allweddol ac mae'n sail i hunanwerthuso a Chynlluniau Gwella Busnes yr adrannau. Mae'n bwysig nodi na fydd Llywodraeth Cymru, ar gyfer blynyddoedd academaidd 2019/20 a 2020/21, yn cyhoeddi ystod o fesurau perfformiad ar draws gwasanaethau, gan gynnwys pob mesur cyrhaeddiad (Dechrau'n Deg, Ysgolion, Gwasanaethau Ieuenctid) a ffigurau presenoldeb. Mae hyn yn effeithio ar y dangosyddion perfformiad allweddol cyfredol fel sydd wedi'i nodi ar yr SOAP.

Byddwn yn gwybod bod pethau'n well pan fydd pob plentyn a pherson ifanc:

- Yn meddu ar ddyheadau a disgwyliadau uchel drostyn nhw eu hunain;
- Yn dechrau addysg statudol ar ôl cael dechrau da i ddysgu gartref ac mewn addysg cyn-ysgol lle bo hynny'n briodol;
- Yn cael profiadau addysg sy'n eu cyffroi ac yn eu hysbrydoli i ddysgu a chyflawni;
- Yn cael eu haddysgu mewn lleoliadau sy'n berthnasol ac yn briodol i ddiwallu anghenion cwricwlwm yr 21ain ganrif;
- Yn gadael ysgolion cynradd yn llythrennog, yn rhifog ac yn gymwys yn ddigidol, yn barod i barhau â'u haddysg yn hyderus ac yn llwyddiannus;

- Yn gadael addysg statudol gyda'r priodolddau a'r sgiliau bywyd angenrheidiol i'w galluogi i bontio'n llwyddiannus i gyflogaeth, a ddysg neu hyfforddiant;
- Yn teimlo'n ddiogel a bod ganddyn nhw les emosiynol cryf;
- Yn cael dweud eu dweud mewn cynlluniau sy'n effeithio ar eu hiechyd a'u lles eu hunain yn y dyfodol a chynlluniau ar gyfer datblygiadau eu hamgylchedd lleol yn y dyfodol; ac
- Yn meddu ar y sgiliau i addasu i heriau ac yn gallu gweithio fel dinasyddion annibynnol a rhyng-ddibynnol.

Sut mae'r thema 'Dechrau Gorau i Fywyd' yn cefnogi cyflawni blaenoriaethau ehangach?

Canolbwyntio ar y Dyfodol



Bywyd Gwaith

- Mae cefnogi plant a phobl ifanc i ennill sgiliau uwch yn cefnogi marchnad lafur fwy medrus
- Mae ysgolion a lleoliadau eraill yn cyflwyno plant a phobl ifanc i'r cysyniad o le, ac yn helpu i ehangu eu dealltwriaeth o'u treftadaeth a'u diwylliant
- Bydd y Bartneriaeth Busnes ac Addysg (BETP) yn ymgysylltu â phlant a phobl ifanc o'r ysgol gynradd i brofi byd gwaith



Lles Amgylcheddol

- Codi ymwybyddiaeth mewn perthynas â'r angen i sicrhau eu bod yn ailgylchu deunyddiau
- Darparu a chynnal a chadw mannau gwyrdd y gall plant, pobl ifanc a'u teuluoedd eu defnyddio yn rhad ac am ddim
- Cynllun effeithlonrwydd ynni Re:fit i leihau allyriadau carbon mewn ysgolion a gwella cynaliadwydd ariannol defnyddio ynni

Cynllun Llesiant PSB

Gwydnwch a Lles Cymunedol

- Mae ysgolion a lleoliadau eraill yn darparu amgylchedd dysgu ac yn darparu cymorth ynghylch datblygu sgiliau er mwyn galluogi plant a phobl ifanc i fod yn fwy hunan-ddibynnol/gwydn

Ffyrdd o Fyw, Iechyd a Bregusrwydd

- Mae ysgolion a lleoliadau eraill yn darparu cyfleoedd i bobl ifanc ddysgu am wahanol fathau o chwaraeon a gweithgareddau, gan gefnogi dewisiadau iechyd a ffordd o fyw gwell
- Mae ysgolion a lleoliadau eraill yn darparu cyfleoedd i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd fod yn fwy actifyn gorfforol drwy amrywiaeth o bartneriaethau yn lleol ac yn rhanbarthol

- Darparu adeiladau ysgolion cynaliadwy, carbon isel ac ynni effeithlon gyda chostau cynnal a chadwisel drwy Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif



Byw'n Dda

- Mae gan bobl ifanc sydd â chymwysterau gwell ddewis ehangach o opsiynau o ran gyrfaeod a chyflogaeth: gall gwaith sy'n talu'n dda arwain at wella'r siawns i fyw'n annibynnol a lles meddyliol cadarnhaol
- Mae ymarferwyr Dechrau Gorau yn gweithio'n agos gyda Thîm Merthyr Actif i sicrhau mynediad cyfartal i weithgareddau, gan gefnogi gwell lles corfforol a meddyliol

Yr Economi a Seilwaith

- Drwy'r Bartneriaeth Busnes ac Addysg Gyda'n Gilydd, nod y cynllun Dechrau Gorau yw codi dyheadau ymhlith pobl ifanc; a'u gwneud yn ymwybodol o opsiynau gyrfa a'r llwybr mae angen iddyn nhw ei ddilyn i wella eu cyfleoedd i gyflawni eu nodau
- Mae rhaglen buddsoddi cyfalaf Ysgolion yr 21ain Ganrif yn darparu ysgolion newydd arloesol sy'n cefnogi'r economi drwy gaffael lleol, manteision cymunedol a darparu asedau cymunedol

Mynd i'r Afael ag Unigrwydd ac Arwahanrwydd

- Mae ysgolion a lleoliadau eraill sy'n ymgysylltu â phlant yn cynnig cyfleoedd i blant a phobl ifanc wneud a chynnal cysylltiadau y tu allan i amgylchedd yr ysgol



Bywyd Gwaith



Aelod Portffolio
Y Cyngorydd Geraint
Thomas

Amcan	Mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i ddiwallu anghenion busnesau, gyda seilwaith diogel, sy'n datblygu, sy'n gwneud Merthyr Tudful yn gyrchfan ddeniadol
Prif Ganlyniad	Datblygu'r amgylchedd a'r seilwaith i fusnesau ffynnu
Swyddog Arweiniol	Dirprwy Brif Weithredwr
Ffocws ar Wella	Adferiad Economaidd

Fel Cyngor rydym ni'n canolbwyntio ar gefnogi ein trigolion, ein busnesau a'r economi. Byddwn yn parhau i weithio gyda'n gilydd i gyflawni ein 3 chanlyniad allweddol, fel a ganlyn: 'Mae Merthyr Tudful yn gwireddu ei botensial economaidd llawn, gyda gweithlu medrus a gwell cyfleoedd cyflogaeth'; 'Mae pobl yn gwerthfawrogi ac yn mwynhau'r amgylchedd adeiledig a naturiol, gan ddiogelu a gwella ein hasedau diwylliannol ar gyfer cenedlaethau'r pre sennol a'r dyfodol'; 'Mae gennym ni gymunedau cryf, gwydn a chefnogol lle mae pobl yn cymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd eu hunain a sut maen nhw'n effeithio ar eraill'. Gan ddefnyddio'r Cynllun Adfer Economaidd; a'r Weledigaeth Economaidd 15 mlynedd ar gyfer y Fwrdeistref Sirol a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Tachwedd 2021; byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i ddatblygu ymatebion wedi'u targedu i'r heriau a wynebir a bydd hynny'n ein galluogi i wella'r ffordd rydym ni'n cefnogi ein cymunedau.

Isod mae enghreifftiau o sut mae adrannau MTCBC yn cyfrannu at yr amcan llesiant hwn.

Timau rhaglenni Cyflogadwyedd a Sgiliau	Timau Cymorth Busnes a Mewnfuddsoddi	Datblygu Chwaraeon; Tîm Treftadaeth a Diwylliant
Adfywio Strategol	Seilwaith Strategol	Tîm Rheoli Cyrchfannau
Tîm Ariannu Ewropeaidd ac Allanol	Iechyd Amgylcheddol	Tîm Safonau Masnach
Tîm trwyddedu	Diogelwch Cymunedol	Safonau Masnach

Tîm Refeniw a Budd-daliadau	Grantiau Tai, Digartrefedd a Chymorth Tai	Adran gynllunio
Tîm priffyrdd	Tîm peirianeg	Gwasanaethau Cymdeithasol
Adran ystadau	Timau Cefn Gwlad, Parciau a Bioamrywiaeth	Adran Addysg
Adran y Blynnyddoedd Cynnar	Dysgu Cymunedol Oedolion	Timau Perfformio a Chraffu
Tîm Cyllid a Chyfrifyddu	Adnoddau Dynol	Adran TGCh
Adran gyfreithiol	Tîm Cyfathrebu Corfforaethol	Cynrychiolwyr ysgolion lleol
Uned Fasnachol		

Mae partneriaid eraill sy'n cyfrannu at gyflawni'r amcan llesiant hwn, ac mae'r rhain wedi'u rhestru isod.

Adran Gwaith a Phensiynau	Heddlu De Cymru	Y Coleg, Merthyr Tudful
Cronfa Dreftadaeth y Loteri	Tasglu'r Cymoedd	Bargen Ddinesig Caerdydd a'r Rhanbarth
Rhentu Doeth Cymru	Consortium Hyfforddiant Tudful	Canolfan Fenter Merthyr Tudful (MTEC)
British Gas	Partneriaeth Adfywio Taf Bargoed	Partneriaeth Canol y Dref
Cymdeithas Tai Merthyr Tudful	Cymdeithas Tai Wales & West	Merthyr Valley Homes
Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg	Ffos y Fran	Sefydliad Bevan
Fforwm Microbiologol Bwyd Cymru	Ymddiriedolaeth Hamdden Merthyr Tudful	Llu'r Ffiniau y DU
Canolfan Soar	Pwyllgor Cyswilt Gorfodi Cyfraith Bwyd Cymru	Llywodraeth Cymru
Clwb Bechgyn a Merched Penydarren	BAWSO	Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
Timau Iechyd Galwedigaethol Cymunedol	Llamau	Merthyr Tudful Mwy Diogel
Gyrfa Cymru	Cyngor ar Bopeth	Yr Asiantaeth Safonau Bwyd
Busnes Cymru	Partneriaeth Canol y Dref	The Roost, Troedyrhiw
Penaethiaid Safonau Masnach Cymru (WHO TS)	Cwm Taf Morgannwg MIND	Cymdeithas Alzheimer
Adref	Cyngor Dylunio Cymru	Y Trefolwyr
Ian Ritchie Architects	The MEANS	CADW
Sefydliad Cyfarthfa	Equinox	Llywodraeth y DU
Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf		

Mae'r amcan llesiant hwn yn cynnig dull cyfannol a chydweithredol o leihau anfantais gymdeithasol drwy gefnogi datblygiad parhaus yr economi leol; cynnal a gwella ymwybyddiaeth cymunedau o gyfleoedd sydd ar gael iddynt tra'n cynnig cyngor a chymorth ar sut i gyrchu'r rhain.

Mae tystiolaeth yn awgrymu nad yw lles personol a lles materol yn ddau beth ar wahân: maen nhw'n gysylltiedig, gyda rhyddid personol a boddhad yn adlewyrchu adnoddau pobl i raddau helaeth. Drwy ddatblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi, mae cyfoeth a chyfleoedd cyflogaeth yn

cael eu creu, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y rhain drwy gefnogaeth i sicrhau gwaith teg. Bydd darparu gwasanaethau galluogi fel trafnidiaeth gyhoeddus gysylltiedig, well yn helpu i gyflawni hyn.

Parhau i gyflawni ein hamcanion llesiant	Gwell canlyniadau i drigolion Merthyr Tudful. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy ystyried darbodusrwydd, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd darparu gwasanaethau.
Darparu ein gwasanaethau yn unol â'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau a'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol	Byddwn yn defnyddio'r cyfleoedd yn y Ddeddf hon a'n holl ddyletswyddau i wella ein rheolaeth perfformiad a'n gwelliant parhaus ymhellach.

Cynllunio Ariannol

Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor (MTFP) yn amlinellu dyraniad y gyllideb ar gyfer y flwyddyn gyfredol ac yn rhagweld gofynion cyllideb y dyfodol. Mae'r Cyngor yn parhau i wynebu heriau cyllidebol sylweddol. Mae'r fframwaith ar gyfer cynllunio a rheoli ei adnoddau dros y 5 mlynedd ariannol diwethaf wedi ein helpu i wynebu'r heriau sylweddol hyn. Rhagwelir y bydd cyfanswm yr arbedion gwasanaeth gofynnol ar gyfer y cyfnod 4 blynedd rhwng 2022/23 a 2025/26 yn £15.5. Mae'r graff gyferbyn yn dangos graddfa'r diffygion rhagamcanol yn y gyllideb dros y tair blynedd nesaf.

Er mwyn cyflawni'r newid hwn, bu'n ofynnol ailffocysu acad-drefnu'r hyn a wnawn yn sylweddol, ac mae'r broses hon wedi arwain at lunio Cynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella'r Cyngor.

Er mwyn gallu cyflawni ein Cynllun Adfer a'r gwelliant rydyn ni ei angen, mae'n hanfodol cysoni ein cyllid yn unol â hynny.



Yr egwyddorion y byddwn ni'n eu mabwysiadu fydd:

- Archwilio a defnyddio cyllid allanol i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl (gan weithio mewn partneriaeth lle bo hynny'n bosibl);
- Ail-lunio ein MTFP yn unol â'n blaenoriaethau a'n canlyniadau;
- Mabwysiadu modelau gweithredu newydd gan adeiladu ar fuddsoddiad a wnaed yn ystod pandemig y Coronafeirws i leihau ein gwariant;
- Adeiladu ar waith sydd eisoes wedi'i gwblhau (e.e. ymarfer capasiti corfforaethol); adolygu modelau gweithredu i ganolbwyntio ar ganlyniadau a manteisio ar gyfleoedd i arbed arian; ac
- Adeiladu ar bolisiâu sy'n bodoli eisoes, gan newid yn ôl yr angen, i ganolbwyntio mwy yn fasnachol ar ein dull o ddarparu gwasanaethau, gan sicrhau gwerth am arian.

Er mwyn cysoni rheolaeth ariannol y Cyngor â'r blaenoriaethau corfforaethol a'r amcanion llesiant, byddwn yn parhau i ddatblygu blaenoriaethu gwasanaethau gan sicrhau bod adnoddau'n cael eu dyrannu i wasanaethau blaenoriaeth sydd wedi'u diffinio'n glir i gyflawni ein dyletswyddau statudol. Ar yr un pryd, byddwn yn sicrhau ein bod yn darparu gwasanaethau effeithiol, effeithlon a gwerth am arian mae ein dinasyddion a'n cwsmeriaid eu hangen.

Bydd y gwaith i flaenoriaethu gwasanaethau yn cael ei adolygu'n barhaus er mwyn sicrhau y bydd gan y Cyngor wybodaeth dda wrth ddarparu gwasanaethau fforddiadwy. Bydd y gwaith hwn yn cael ei gwblhau mewn pryd ar gyfer cyhoeddi'r Setliad Refeniw a Chyfalaf dros dro blyneddol ar gyfer Llywodraeth Leol.

Bydd hyn yn galluogi'r Cyngor i gysoni Setliadau Refeniw a Chyfalaf yn y dyfodol â'n blaenoriaethau a'n hamcanion yng nghyhoed diadau ein MTFP yn y dyfodol, bydd y rhain ar gael ym mis Mawrth bob blwyddyn.

[Ein Hymateb i'r Heriau Ariannol Wrth Symud Ymlaen](#)

Mae angen i ni barhau i adeiladu ar y gwaith a wnaed hyd yma drwy barhau i ganolbwyntio ar y cwsmer a bod yn gyfrifol yn ariannol ym mhopeth a wnawn. Mae bod yn Gyngor 'addas i'r diben' yn sail i'n holl waith ac yn ein galluogi i gyflawni ein hamcanion llesiant a'n blaenoriaethau corfforaethol ehangach.

Dros y misoedd a'r blyneddau nesaf, byddwn yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol i ymateb yn gadarnhaol i'r heriau rydyn ni'n eu hwynebu.

Byddwn ni yn ...	Bydd llwyddiant yn edrych fel ...
Trawsnewid ein gwasanaethau a buddsoddi yn ein staff	Gweithlu medrus a brwdfrydig a all gefnogi adferiad, trawsnewid a gwelliant y Cyngor drwy gyflawni ein Cynllun RTI a gwella'r modd y cyflawnir y cynllun llesiant corfforaethol hwn (gan gynnwys ein hamcanion llesiant).
Cryfhau a datblygu ein gwaith partneriaeth ymhellach	Ni allwn wneud popeth ar ein pennau ein hunain. Rydym ni wedi gwneud partneriaethau cryf wrth ymateb i bandemig y coronafeirws ac rydym ni am adeiladu ar hyn. Bydd integreiddio ein cynlluniau a chydweithio wrth ddefnyddio ein hadnoddau yn ein helpu i gyflawni ein hamcanion llesiant yn well ac yn arwain at ganlyniadau gwell i'n trigolion.
Parhau i sicrhau buddsoddiad yn ein cymunedau	Byddwn yn defnyddio cyllid allanol lle mae ar gael i gefnogi ein hamcanion llesiant a'n blaenoriaethau ar gyfer gwella yn ein Cynllun RTI.
Gwneud y mwyaf o'n setliadau ariannol llywodraeth leol	Byddwn yn cysoni ein cyllid i gefnogi ein hamcanion a'n blaenoriaethau llesiant yn ein Cynllun RTI i wella canlyniadau i'n trigolion.

Cynllunio'r Gweithlu – Sefydliad Iach

Mae gan MTCBC gyfoeth o sgiliau a phrofiad ar draws ei adnodd mwyaf gwerthfawr; y gweithlu. Mae ein gweithwyr yn gweithio gyda phartneriaid i ddarparu gwasanaethau sydd, yn bennafoll, yn diwallu anghenion ein trigolion. Mae hyn wedi dod yn arbennig o amlwg wrth ymateb i bandemig y coronafeirws.

Rydym yn sefydliad darbodus, sy'n golygu bod ein heriau'n cynnwys sicrhau bod ein holl adnoddau (gan gynnwys ein Staff) yn cael eu cefnogi'n briodol ac yn canolbwyntio ar gyflawni ein blaenoriaethau. Mae'r Cyngor wedi buddsoddi yn ei weithlu yn dilyn ymarferion capasiti ac i ariannu'r Cynllun RTI. Yn ogystal â chymeradwyaethau twf cyffredinol, mae buddsoddiad o tua £1.5 miliwn yn 2021/22 wedi cryfhau sut y gallwn gyflawni ein hamcanion a'n blaenoriaethau. Mae'r buddsoddiad hwn wedi helpu sut mae'r Cyngor wedi cryfhau meysydd a nodwyd gan ein rheoleiddwyr a'n blaenoriaethau ar gyfer gwella. Byddwn yn parhau i adolygu hyn yn unol â'r heriau a'r newidiadau rydyn ni'n eu hwynebu.

Rydym wedi gallu defnyddio data staff i'n helpu i ychwanegu gwydnwch at ein gwasanaethau a chefnogi ein staff. Rydym wedi dysgu llawer o wersi yn ystod y pandemig, a gellir defnyddio'r rhan fwyaf ohonynt wrth lunio ein cynllun Sefydliad Iach wrth symud ymlaen.

Mae ein rhaglen Sefydliad Iach yn thema allweddol yn ein Cynllun RTI. Bydd yn ein helpu i ymateb i'r heriau mae'r Cyngor a'n cymunedau yn eu hwynebu dros y blynyddoedd nesaf.

Rydym wedi defnyddio'r wybodaeth o'n harolwg diwylliant staff blynyddol wrth gynllunio ein rhaglen Sefydliad Iach. Ein nod yw sicrhau bod gennym WEITHLU BRWDFRYDIG, ATEBOL AC YMGYSYLLTIEDIG SYDD Â'R SGILIAU A'R GALLU I GYFLAWNI NODAU'R SEFYDLIAD. Yn dilyn hyn, rydym yn adfer ein rhaglen ymgysylltu â staff (fforwm staff).

Drwy gasglu a dadansoddi data ein staff gallwn ddeall a chefnogi ein gweithlu a'n cynlluniau allweddol yn well, er enghraifft y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a dyletswyddau amrywiol fel Pobl Hŷn a'r Gymraeg.

Byddwn yn parhau i ddefnyddio ein fframwaith rheoli perfformiad a'n cynlluniau datblygu personol ('Ffocws ar Eich Perfformiad') i gefnogi ein staff i ddatblygu, cyflawni ein canlyniadau'n well sy'n gysylltiedig â'n blaenoriaethau corfforaethol, ein hamcanion llesiant, a'n gwledigaeth gyffredin (yr 'llynyn euraid').



Byddwn ni yn ...	Bydd llwyddiant yn edrych fel ...
Parhau i gyflawni ein proses Ffocws ar Berfformiad	Mae gan bob aelod o staff set SMART o amcanion a chynlluniau datblygu â ffocws sy'n cysylltu â nodau tîm i wella atebolrwydd a chefnogi ein hamcanion llesiant a gwella canlyniadau i'n trigolion.
Parhau i gasglu a dadansoddi data gan ddefnyddio technoleg fodern i gefnogi ein staff (e-berfformiad)	Modiwl e-Berfformiad sy'n ein galluogi i gasglu a dadansoddi data mewn ffordd economaidd, effeithlon ac effeithiol i ffurfio cynlluniau ac amcanion datblygu â ffocws ar gyfer ein staff. Datblygu cynllun hyfforddiant a datblygu ar gyfer staff.
Caniatáu i bobl wneud cais am swyddi yn MTCBC mewn modd hawdd ei ddefnyddio a modern, os ydyn nhw'n dymuno (e-recrwtio)	Modiwl e-Recrwtio sy'n hawdd ei ddefnyddio ac sy'n caniatáu i bobl wneud cais am swyddi gyda MTCBC (gwella ein henw da am y mater hwn). Gall hyn ein helpu i lenwi rolau'n effeithiol a denu ymgeiswyr. Gellir mynd i'r afael yn well â materion cynllunio olyniaeth, capasiti a chydnerthedd o ganlyniad. Meithrin gwydnwch mewn mathau newydd o rolau o fewn y Cyngor e.e. dadansoddeg data.
Cynyddu nifer y cyfleoedd prentisiaeth yn MTCBC	Gwell cynllunio olyniaeth, gan ychwanegu capasiti a gwydnwch ar draws MTCBC. Gall staff rannu sgiliau a phrofiad (rhan o fod yn sefydliad sy'n dysgu). Gall syniadau newydd greu lle mwy deniadol i weithio.
Parhau ar ein taith i ddod yn sefydliad sy'n dysgu	Mae gan staff gynlluniau datblygu â ffocws sy'n cyd-fynd â nodau tîm a'r llinyn euraid i'n gweledigaeth gyffredin. Gall staff rannu sgiliau a phrofiad, gan ddarparu ffordd ddarbodus, effeithlon ac effeithiol o ddatblygu sgiliau unigolion. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid ac yn defnyddio cyllid allanol lle bo hynny'n bosibl i'n galluogi i gyflawni hyn.

Caffael – Uned Fasnachol

Rydym ni wedi bod yn gwella adnoddau mewnol i alluogi'r gwasanaeth i esblygu i'r Uned Fasnachol. Mae'r uned Fasnachol yn gyfrifol am Gaffael Corfforaethol a gwasanaethau trafodol (prynu a thaliadau).

Mae'r uned fasnachol wedi cytuno ar nifer o gamau datblygu ar gyfer 2022/23 sy'n cynnwys dadansoddiad manwl o wariant sylfaen o ly Cyngor a defnyddio'r wybodaeth hon i lywio cyfleoedd yn y dyfodol. Alinio gweithgarwch i hyrwyddo mwy o wariant lleol, creu mwy o gysylltiadau o dan y faner gaffael gyda sefydliadau angori lleol a datblygu system lywodraethu newydd ar gyfer prosiectau gwerth am arian.

Yn ogystal â gweithgarwch masnachol, bydd caffael yn cefnogi adrannau'r Cyngor i sicrhau ein bod yn darparu mwy o werth drwy ein gwariant 3ydd parti i gyfrannu'n gadarnhaol at ganlyniadau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol. Yn sail i'r gweithgaredd hwn mae Datganiad Polisi Caffael Cymru a'i 10 egwyddor a adnewyddwyd ym mis Mawrth 2021.

Bwriedir i strategaeth fasnachol newydd yn lle'r strategaeth gaffael bresennol gael ei chyhoeddi yn ystod 2022/23 ynghyd â pholisi gwerth cymdeithasol.

Byddwn ni yn ...	Bydd llwyddiant yn edrych fel ...
Datblygu'r uned fasnachol a meithrin gwell dealltwriaeth o ymddygiadau gwario ein 3ydd partïon	Strwythurau terfynol a datblygu fframwaith dadansoddi acadrodd masnachol cadarn. Strategaeth fasnachol gymeradwy a fydd yn rheoli gweithgarwch masnachol a chaffael yn y dyfodol ar draws y Cyngor
Cynnal a datblygu gwasanaethau caffael	Cynnal seilwaith caffael cadarn sy'n gwneud y defnydd gorau o dechnoleg acadnoddau modern. Datblygu caffael a gwybodaeth fasnachol gyffredinol er mwyn sicrhau gwell canlyniadau o brosiectau caffael. Parhau i integreiddio WFGA 2015 a phum ffordd o weithio mewn prosiectau caffael ac Ymgysylltu'n gynnar â gwasanaethau caffael mewn gwaith prosiect Trosoledd parhaus drwy gydweithio ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol Cofrestr contract aeddfed sy'n cael ei chynnal gan flaengynllun gwaith cadarn
Ymgorffori arfer gorau a deddfwriaeth	Staff caffael mwy gwybodus i sicrhau ein bod, drwy ein gweithgareddau caffael, yn sicrhau bod canlyniadau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol yn cael eu cyflawni Datblygu'r pecyn cymorth gwerth cymdeithasol i fesur 'gwerth' ein Contractau i'r gymuned.
Parhau i sicrhau bod anfonebau'n cael eu talu o fewn 30 diwrnod	Mae 90%+ o daliadau anfonebau yn cael eu cynnal o fewn 30 diwrnod i ddyddiad yr anfoneb

Asedau

Mae'r adolygiad o'n Cynllun Rheoli Asedau ar fin cael ei gwblhau. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys 6 blaenoriaeth gyffredinol sy'n cyd-fynd â'n hamcanion llesiant ac wedi'u hategu gan y 5 ffordd o weithio.

Y Strategaeth Cynnal a Chadw	Cydymffurfiaeth Statudol
Rhesymoli Ystadau/Gweithio Ystwyth	Rheoli Ynni/Carbon/Datgarboneiddio
Masnacheiddio	Gwarediadau ac Adolygiad Eiddo

Fel y byddwch chi'n sylwi, mae'r blaenoriaethau hyn hefyd yn ein helpu i gyflawni ein Cynllun RTI, rydym ni wedi integreiddio ein cynlluniau.

Byddwn ni yn ...	Bydd llwyddiant yn edrych fel ...
Cymeradwyo ein cynllun rheoli asedau wedi'i adolygu a'i ddiweddarau	Cynllun integredig i gefnogi'r gwaith o gyflawni ein Cynllun RTI a'n hamcanion llesiant, gan arwain at ganlyniadau gwell i'n trigolion.

Rheoli Risg

Mae ein Strategaeth Rheoli Risg (RMS) wedi'i chynllunio i sicrhau ein bod yn nodi, monitro a lliniaru risg. Yn MTCBC, rydym yn defnyddio dull 'Cynllunio-Gwneud-Adolygu-Gwella' sy'n seiliedig ar yr egwyddor datblygu cynaliadwy a'n model gweithredu. Mae hyn yn sicrhau nad yw rheoli risg yn cael ei wneud ar ei ben ei hun, nad yw'n adweitheddol ac nad yw'n canolbwytio ar y tymor byr yn unig. Rydym wedi rhoi pwyslais ychwanegol ar liniaru dros y blynyddoedd diwethaf, a bydd hyn yn llywio ein cynlluniau'n well.

Mae RMS wedi bod ar waith ers sawl blwyddyn, gydag adolygiadau llawn yn cael eu gwneud yn unol â newid. Fel rhan o'n gwelliant parhaus i'n trefniadau llywodraethu, rydym yn adolygu ein RMS ynghyd â dogfennau llywodraethu allweddol eraill i sicrhau ein bod yn gweithio mor effeithlon ac effeithiol â phosibl.

Drwy ddefnyddio ein RMS, rydym wedi nodi ac asesu ein safbwynt ac mae gennym 11 o risgiau corfforaethol. Caiff y sefyllfa hon ei hadolygu gan Uwch Swyddogion ac Aelodau Etholedig fel ei gilydd. Mae ein prosesau yn ein galluogi i adolygu'r sefyllfa'n ffurfiol o leiaf ddwywaith y flwyddyn drwy gynnal gweithdai gydag Uwch Swyddogion ac Aelodau Etholedig. Cyflwynir ein canfyddiadau i'n Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac yna ceir cymeradwyaeth mewn cyfarfod Cabinet. Cyhoeddwyd y fersiwn ddiweddaraf o'n cofrestr risgiau corfforaethol yn hydref 2021. Mae'r systemau llywodraethu yn cydymffurfio â fframwaith y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifon.

Yn ogystal â'n risgiau corfforaethol, mae gennym brosesau i nodi, monitro a lliniaru risgiau gweithredol. Cynhelir cyfarfodydd swyddogion drwy gydol y flwyddyn gyda swyddogion atebol wedi'u neilltuo i risgiau, gan gynnwys cyfarfod â'n hadran yswiriant. Mae hyn i gyd yn ein galluogi i ddefnyddio'r wybodaeth a'r data sydd gennym ar risg i lywio sut mae'r Cyngor yn cynllunio ac yn gweithredu. Rydym yn integreiddio risg weithredol yn well â pherfformiad gwasanaethau a chynlluniau gwella a chynlluniau ariannol. Mae risg hefyd yn rhan allweddol o'n hadolygiadau perfformiad a gwella chwarterol. Yn ogystal â'r RMS, mae gan y Cyngor adran iechyd a diogelwch ac adran Parhad Busnes.

Byddwn ni yn...	Bydd llwyddiant yn edrych fel ...
Adolygu a chyhoeddi ein RMS diweddaraf	Strategaeth hawdd ei deall sy'n ein galluogi i nodi, monitro a lliniaru risg yn fwy effeithlon ac effeithiol. Mae hyn yn golygu y gallwn weithredu'n gyflymach a gwneud penderfyniadau mwy gwybodus.
Parhau i adolygu ein risgiau corfforaethol a gweithredol – cyhoeddi ein canfyddiadau	Asesiad agored a thryloyw o'r risgiau corfforaethol a nodwyd.
Defnyddio data risg i lywio'r broses o wneud penderfyniadau yn well	Gwneud penderfyniadau drwy ddefnyddio data risg hawdd ei ddeall. Bydd hyn yn ein galluogi i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol a sicrhau gwell canlyniadau i'n trigolion.

Mae gwneud hyn yn golygu y byddwn mewn sefyllfa well i gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

Adran 4 – Monitro'r Cynllun

4.1 Monitro Ein Perfformiad

Rydym ni'n credu bod rheoli perfformiad yn effeithlon ac yn effeithiol yn hanfodol i atebolrwydd a sicrhau gwell canlyniadau i'n trigolion. Rydym ni'n parhau i roi mwy o ffocws ar berfformiad ac rydym yn defnyddio data i'n galluogi i wneud penderfyniadau mwy gwybodus i wel la'n barhaus. Er mwyn gwneud hyn, rydym yn cryfhau dealltwriaeth a darpariaeth o berfformiad a llywodraethu. Rydym ni wedi datblygu 'Fframwaith Rheoli Perfformiad a Sicrhau Ansawdd' (gweler atodiad 3). Mae hwn yn nodi dulliau cadarn fel y gallwn reoli e in perfformiad a sicrhau ansawdd. Mae'n cynnwys sut rydym ni'n casglu gwybodaeth a data, sut rydym ni'n dadansoddi hyn ac yn cyflwyno ein canfyddiadau. Bydd yn ein helpu i sicrhau ein bod ni'n dilyn ein systemau a'n prosesau yn gyson ar draws y Cyngor ac yn sicrhau bod ein trefniadau llywodraethu yn cael eu defnyddio fel y gallwn reoli ein perfformiad yn well. Bydd ein data yn llywio gwaith craffu, adrodd, ein Hadroddiad Hunanasesu, y Datganiad Llywodraethu Blyneddol a'n Cynllunio Corfforaethol.

Fel yr amlinellir yn yr adran Sefydliad Iach uchod, rydym yn cefnogi ein staff ac yn gwneud cysylltiadau clir rhwng rolau swyddi a'n gweledigaeth gyffredin. Rydym yn rhoi mwy o bwyslais ar sut rydym ni'n cyfleu perfformiad yn fewnol yn ein hymgyrch i ganolbwyntio mwy ar ganlyniadau.

Rydym yn parhau i ddefnyddio ein proses hunanarfarnu. Eleni mae wedi'i gyflwyno mewn ffordd ychydig yn wahanol oherwydd effeithiau pandemig y coronafeirws. Mae pob thema/amcan yn cael ei harchwilio drwy gydol y flwyddyn mewn pwyllgorau craffu ac mae'r adroddiadau'n cael eu defnyddio i wella'r ffordd rydym yn darparu gwasanaethau gyda'n gilydd. Er enghraifft, mae ein gwasanaethau cymorth yn dysgu sut y gallant gefnogi ein gwasanaethau rheng flaen yn well. Yna mae timau'n gweithio gyda'i gilydd i ddod o hyd i ateb gyda'r nod bob amser o ddarparu gwell canlyniadau.

Mae'r dull hwn wedi ein helpu gyda'n gwaith cynllunio corfforaethol a chaiff ei ddefnyddio yn ein Hadroddiad Hunanasesu sydd i'w gyhoeddi ar ein gwefan yn ddiweddarach eleni. Byddwn yn adeiladu ar ein dysgu i ddefnyddio'r dull hwn i ganolbwyntio ar feysydd rydyn ni angen eu gwella.

Byddwn ni yn ...	Bydd llwyddiant yn edrych fel ...
Gwella ein fframweithiau rheoli perfformiad a llywodraethu	Fframwaith hawdd ei ddeall mewn un ddogfen sy'n nodi prosesau sy'n gwella atebolrwydd ac yn arwain at well canlyniadau i drigolion Merthyr Tudful. Bydd yn ein helpu i fonitro a gwella'n barhaus yn effeithlon ac yn effeithiol, ond bydd hefyd yn addasu i unrhyw newidiadau mewn de ddfwriaeth.
Datblygu ymhellach ein ffyrdd hawdd eu deall o gyflwyno data y gallir eu defnyddio i lywio'r broses o wneud penderfyniadau	Gwelliannau yn y ffordd rydym yn defnyddio data mewn adroddiadau a chynlluniau, gan arwain at wneud penderfyniadau gwell. Bydd materion yn cael eu nodi'n gynt ac yn cael sylw'n gynt. Gallir rhoi mwy o wybodaeth fel sail i gynllunio, a byddwn yn gallu rhoi mwy o ffocws wrth gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy i'n gwaith.
Adeiladu ar ein proses adolygu perfformiad a gwella	Proses economaidd, effeithlon ac effeithiol sy'n defnyddio data i wella perfformiad a dwyn Swyddogion ac Aelodau'r Cabinet i gyfrif. Yn y pen draw, bydd hyn yn arwain at well canlyniadau i'n trigolion.
Gwneud data yn fwy hygyrch ac yn haws i'w ddeall	Defnyddio dulliau mwy modern o ddadansoddi ac arddangos data i wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth. Mae hyn yn arwain at well cyfathrebu ac ymgysylltu gan ganiatáu i ni roi mwy o ffocws wrth gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy i'n gwaith.

4.2 Craffu

Yn ogystal â monitro gan Swyddogion a Chabinet drwy ein prosesau mewnol megis adolygiadau perfformiad a gwella chwarterol, mae ein Pwyllgorau Craffu (sy'n cynnwys Aelodau Etholedig, Aelodau Cyfetholedig a rolau penodol i bartneriaid yn ein Pwyllgor Craffu Addysg) yn chwarae rhan hanfodol wrth fonitro ein perfformiad. Rydym yn adolygu ein darpariaeth craffu yn unol â'n trawsnewid a'n gwelliant ynghyd â newidiadau i ddeddfwriaeth. Mae rhagor o wybodaeth am ein swyddogaeth graffu yn ein Hadroddiad Craffu Blynnyddol.

Mae gennym 5 prif bwyllgor craffu a Phwyllgor Llywodraethu ac Archwilio sy'n ymdrin â phob agwedd ar y cynllun hwn a phopeth rydym ni'n ei wneud. Gall enwau a chylchoedd gwaith y pwyllgorau hyn newid yn dilyn yr Etholiadau Lleol ym mis Mai 2022 i gyd-fynd yn well â'r ffordd mae gwasanaethau'n cael eu strwythuro i gyflawni ein hamcanion a'n blaenoriaethau.

Y 5 pwyllgor craffu presennol **yw**:

• Trawsnewid, Masnacheiddio a Gwasanaethau Corfforaethol	• Gwasanaethau Cymdogaeth, Cynllunio a Chefn Gwlad
• Dysgu ac LGES (Gwasanaeth Addysg Llywodraeth Leol)	• Adfywio a Diogelu'r Cyhoedd
• Gwasanaethau Cymdeithasol	

Mae gan y swyddogaeth graffu **4 egwyddor i sicrhau craffu effeithiol** (*Y Ganolfan Craffu Cyhoeddus (CfPS)*):

- Darparu **her 'cyfaill beirniadol'** i lunwyr polisi gweithredol a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau
- Cael ei chynnal gan **'lywodraethwyr annibynnol eu meddwl'** sy'n arwain ac yn perchnogi'r broses graffu
- Sbarduno **gwelliant** mewn gwasanaethau cyhoeddus
- Galluogi **llais a phryderon** y cyhoedda'i gymunedau

Nid yw rôl ein pwyllgorau craffu yn golygu gwneud penderfyniadau na bod yn wleidyddol ond gellir ei chrynhai yn y 4 pwynt hyn :

- **Dwyn y Weithrediaeth (Cabinet) i gyfrif**
- **Adolygu a datblygu polisi**
- **Monitro Perfformiad**
- **Craffu Allanol**

Mae ein Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn annibynnol ar ein Pwyllgorau Craffu a'n swyddogaeth Gabinet. Diben y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yw rhoi sicrwydd annibynnol i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ar ddigonolrwydd y fframwaith rheoli risg, yr amgylchedd rheolaeth fewnol, uniondeb y prosesau adrodd a llywodraethu ariannol, cwynion a pherfformiad (mae'r ddwy eitem olaf hyn drwy newidiadau yn dilyn Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021). Mae'n goruchwyllo ac yn derbyn adroddiadau gan ein Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol a'n Harchwilwyr Allanol - Archwilio Cymru. Mae'r pwyllgor hwn yn cymeradwyo ein cyfrifon yn ogystal â chwarae rhan allweddol yn ein gwaith llywodraethu, yn enwedig o ran ein proses o bennu cyllidebau a rheoli risg a pherfformiad.

4.3 Yr hyn a ddywedodd y Rheolyddion

Fel Cyngor, rydym yn parhau i ymgysylltu â'n rheoleiddwyr allweddol ac yn parhau i ymateb i unrhyw heriau, meysydd i'w datblygu neu argymhellion rydyn ni'n eu derbyn. Rydym wedi defnyddio canlyniadau'r trafodaethau a'r adolygiadau hyn i helpu i lunio ein gwaith cynllunio strategol, yn ogystal â'n gwaith cynllunio ar gyfer gwella gwasanaethau yn y tymor byr, y tymor canolig a'r hirdymor.

Archwilio Cymru

Mewn adroddiad a gyhoeddwyd i'r Cyngor ym mis Ebrill 2021, mae Archwilio Cymru yn darparu 10 argymhelliad (gweler isod). Bydd ein cynlluniau'n cael eu datblygu a'u hintegreiddio â'n cynlluniau gwella.

A1 - Dylai'r Cyngor fynd i'r afael â'r diffyg gallu ac arbenigedd i yrru a chynnal yr agenda drawsnewid.	A6 - Rhaid i'r Cyngor adeiladu ar ei sefyllfa ariannol bresennol i gryfhau ei wydnwch ariannol. Mae'n hanfodol ei fod yn mabwysiadu dull sy'n seiliedig i raddau helaeth ar gynllunio tymor canolig i'r tymor hir gan gynnwys ystyried lefel yr arbedion mae'n disgwyl eu cyflawni'n realistig drwy drawsnewid, a lefel y buddsoddiad sydd ei angen i gyflawni'r Cynllun RTI.
A2 - Dylai'r Cyngor ddarparu mwy o sefydlogrwydd yn ei strwythur uwch reolwyr cyn gynted â phosibl	A7 - Dylai'r Cyngor sicrhau ei fod, fel corff corfforaethol, yn parhau i ganolbwyntio ar wella canlyniadau addysg pob plentyn a pherson ifanc.
A3 - Dylai'r Cyngor barhau â'i adolygiad o gapasiti i adlewyrchu'r trawsnewid sydd ei angen a'r gwersi a ddysgwyd o'r pandemig. Dylid gwneud hyn ar y cyd ag ystyriaethau ynghylch ffurf a sgiliau gweithlu'r Cyngor yn y dyfodol.	A8 - Dylai'r Cyngor barhau i gryfhau ei drefniadau rheoli perfformiad a'i ddiwylliant. Mae angen iddo ddefnyddio trefniadau'n effeithiol i fonitro a herio perfformiad ar lefelau unigol, gwasanaeth a chorfforaethol, a sicrhau bod y trefniadau hyn yn gadarn i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun RTI.
A4 - Dylai'r Cyngor fireinio'r Cynllun RTI a sicrhau ei fod wedi'i gostio'n llawn, ei fod yn cynnwys yr adnoddau ariannol a dynol sydd eu hangen i'w gyflawni.	A9 - Dylai'r Cyngor gryfhau ei drefniadau craffu gan gynnwys sut y gallai craffu fod â rôl fwy penodol ac effeithiol. Er enghraifft, gallai pwyllgorau craffu ystyried eu rôl yn y meysydd canlynol: • y Cynllun RTI; a • dwyn y Cabinet i gyfrif yn unol â chanllawiau statudol.
A5 - Dylai'r Cyngor gryfhau ei gyfathrebu a'i ymgysylltiad â staff er mwyn sicrhau bod perchnogaeth a dealltwriaeth o gynlluniau ac uchelgeisiau'r Cyngor.	A10 - Dylai'r Cyngor adeiladu ar ei waith partneriaeth diweddar a rhoi trefniadau ar waith i'w sicrhau ei hun bod ei weithgareddau partneriaeth yn darparu gwerth am arian.

ESTYN

Ym mis Ionawr 2021, cyhoeddodd ESTYN adroddiad cenedlaethol o'r enw 'Cymorth awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i ysgolion ac UC Dau mewn ymateb i COVID-19'. Mae'r adroddiad hwn yn gwneud 5 argymhelliad (gweler isod) ar sut mae awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol wedi gwneithio gydag ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion (UC Dau) i hyrwyddo dysgu a chefnogi disgyblion sy'n agored i niwed yn ystod cyfnod COVID-19 (rhwng mis Mehefin a mis Tachwedd 2020). Mae'r argymhellion cenedlaethol hyn yn cael eu defnyddio i lywio ein cynlluniau.

A1 - Mynd i'r afael ar frys â rhwystrau i ddysgu gartref, yn enwedig lle mae hyn oherwydd diffyg mynediad at gyfrifiaduron addas neu gysylltedd digonol

A2 - Gwellu ansawdd y pellter a phrofiadau dysgu cyfunol i ddisgyblion drwy gefnogi addysgu mwy effeithiol ar draws ac o fewn ysgolion ac UC Dau

A3 - Datblygu dull cydlynol o wellu cynnydd mewn llythrennedd, rhifedd a sgiliau personol a chymdeithasol disgyblion sy'n agored i niwed mae'r pandemig yn effeithio'n anghymesur arnynt, er enghraifft disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim

A4 - Sefydlu strategaethau i fonitro a mynd i'r afael ag effaith hirdymor y pandemig ar iechyd corfforol a meddyliol disgyblion

A5 - Creu cyfleoedd i bwysu a mesur a gwerthuso effaith polisiâu ac arferion a ddatblygwyd ers dechrau'r pandemig i lywio ffyrdd o weithio a chynllunio'r cwricwlwm yn y dyfodol

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

Cynhaliwyd Arolygiad o'r Gwasanaethau i Oedolion a Phlant ym mis Hydref 2020. Cafodd yr argymhellion yn yr adroddiad hwn eu cynnwys yn y cynlluniau gwasanaeth. Mae arolygydd arweiniol AGC wedi parhau i gyfarfod â'r Cyfarwyddwr a Phenaethiaid Gwasanaeth drwy gydol y 12 mis diwethaf, a chynhaliwyd y cyfarfod ffurfiol diwethaf ym mis Rhagfyr 2021. Yn ystod y cyfnod hwnnw trafodwyd y cynnydd o'r flwyddyn flaenorol ac archwiliwyd y cynlluniau ar gyfer y flwyddyn ganlynol.

Bydd AGC yn parhau i gyfarfod â'r Cyfarwyddwr a Phenaethiaid Gwasanaethau yn 2022-23 i adolygu'r cynnydd yn erbyn y Cynllun Adfer, Trawsnewid a Gwellu.

Bydd AGC yn adolygu data perfformiad o bob awdurdod lleol a fydd yn helpu i lywio eu rhaglen waith.

Rhwng mis Ebrill 2022 a mis Tachwedd 2022 cynhelir adolygiad thematig Cenedlaethol ar Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus sy'n dil yn argymhellion blaenorol o'u hadroddiad cynharach ym mis Rhagfyr 2016 a hefyd yn ystyried yr argymhellion a wnaed o ran cyflawni arfer gorau yn y systemau amddiffyn plant a chyfiawnder teuluol (Mawrth 2021).

Presennol hyd at fis Medi 2022 - mae AGC yn parhau i weithio ar y cyd ag AGIC ar adolygiadau cenedlaethol sy'n dod i'r amlwg gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) arolygiadau ar y cyd o CMHT.

Bydd AGC hefyd yn parhau i gysylltu ag Unigolyn Cofrestredig y cartrefi gofal a chynnal Arolygiadau yn ôl yr angen.

4.4 Gweithio mewn Partneriaeth

Fel rydym ni wedi'i wneud o'r blaen, byddwn yn parhau i ddatblygu ein gwai th partneriaeth. Rydym wedi dysgu sut mae cydweithio drwy gydol pandemig y coronafeirws wedi ein helpu i ddarparu ein gwasanaethau a gallwn wella canlyniadau i'n trigolion. Mae hyn yn dechrau o fewn y Cyngor. Bydd ein hadrannau yn parhau i adeiladu trefniadau gweithio gwell a bydd hyn yn ein helpu i gysoni ein hadnoddau cyfyngedig yn erbyn canlyniadau.

Byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru, ein Bwrdd Gwella a Sicrwydd a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) a ein taith adfer, trawsnewid a gwella.

Byddwn hefyd yn ffurfio partneriaethau cryfach gyda sectorau eraill ym Merthyr Tudful. Mae dull Tîm Merthyr a'r Bartneriaeth Busnes, Addysg a Hyfforddiant yn enghreifftiau gwych o hyn. Byddwn yn parhau i weithio i'r siarter gyda'n Cyngor Cymuned.

Byddwn yn parhau i weithio gyda Chynghorau eraill, yn enwedig wrth geisio cyllid gan Lywodraeth Cymru. Rydym yn bwriadu ehangu ar y gwaith rydym ni eisoes yn ei wneud eleni i helpu i gefnogi ein Cynllun RTI a chyflawni ein hamcanion llesiant. Byddwn hefyd yn parhau i gymryd rhan weithredol yn ein partneriaethau rhanbarthol, er enghraifft y 'Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol' a'r 'Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus'.

Adran 5 – Geirfa

5 ffordd o weithio a'r egwyddor datblygu cynaliadwy

Mae 5 peth mae angen i gyrff cyhoeddus feddwl amdanynt i ddangos y gallant gydweithio'n well, osgoi ailadrodd camgymeriadau'r gorffennol a mynd i'r afael â rhai o'r heriau hirdymor rydyn ni'n eu hwynebu. Cyfeirir at hyn yn aml fel yr egwyddor datblygu cynaliadwy. Y 5 ffordd o weithio yw:

1 - Tymor hir

Pwysigrwydd cydbwysu'r anghenion tymor byr gyda'r angen i ddiogelu'r gallu hefyd i fodloni angen yn y tymor hir.

2 - Atal

Sut y gallai actio i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i fodloni eu hamcanion.

3 - Integreiddio

Ystyried sut y gallai amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar eu hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.

4 - Cydweithio

Gweithredu ar y cyd ag unrhyw berson arall (neu rannau eraill o'r corff ei hun) a allai helpu'r corff i gyflawni ei amcanion lles.

5 - Ymglymiad

Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni nodau lles, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal a wasanaethir gan y corff.

Amcan Llesiant

Mae'r Amcanion Llesiant yn nodi'r hyn sydd angen digwydd yn lleol yn ein barn ni i helpu i wella lles pobl Merthyr Tudful a chyflawni'r Nodau Llesiant cenedlaethol. Mae gan MTCBC 4 amcan llesiant.

Nod Llesiant

Mae'r 7 Nod Llesiant yn dangos y math o Gymru rydyn ni am ei gweld. Gyda'i gilydd maen nhw'n darparu gweledigaeth gyffredin i'r cyrff cyhoeddus yng Nghymru weithio tuag ati.

Cynllun Ariannol Tymor Canolig

Cynllun i gydbwysu goblygiadau ariannol amcanion a pholisïau yn erbyn cyfyngiadau mewn adnoddau, sy'n darparu sail ariannol ar gyfer gwneud penderfyniadau, er mwyn sicrhau cynaliadwyedd ariannol dros y tymor canolig (5 mlynedd).

Tlodi

Pan fydd adnoddau person yn llawer is na'r hyn mae'r person ei angen i ddiwallu ei anghenion sylfaenol.

Amddifadedd	Gellir diffinio amddifadedd fel canlyniad i ddiffyg incwm ac adnoddau eraill, a all gyda'i gilydd arwain at gyflwr o dlodi.
Tlodi cymharol	Os oes gan aelwyd incwm isel, mae ganddynt rywfaent o arian ond dim digon i fforddio unrhyw beth uwchlaw'r pethau sylfaenol.
Tlodi absoliwt	Os nad yw person yn ennill yr isafswm incwm sydd ei angen i fodloni'r gofynion canolig ar gyfer un neu fwy o anghenion byw sylfaenol dros gyfnod estynedig o amser.
Cynllun Gwaith y Cabinet	Rhestr o benderfyniadau allweddol a phenderfyniadau eraill a gynlluniwyd gan Aelodau Cabinet i'w gwneud ar ran y Cyngor. Diben y Rhaglen Waith yw rhoi rhybudd o'r penderfyniadau hynny a chyfle i ymgynghori.
Cofrestr Risg Corfforaethol	O fewn pob sefydliad mawr, mae risgiau sy'n ymwneud â swyddogaethau busnes craidd, iechyd corfforaethol a strategaeth – caiff y rhain eu categorio fel risgiau corfforaethol. Mae'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn gofnod o'r holl risgiau corfforaethol a nodwyd; fe'i defnyddir i fonitro'r risgiau hyn a dangos sut y cânt eu rheoli/lliniaru.
Perfformiad Ansoddol	Rydym ni'n dangos hyn drwy fonitro perfformiad heb gymharu data e.e. astudiaethau achos.
Perfformiad Meintiol	Rydym ni'n dangos hyn drwy ddefnyddio ffyrdd mwy traddodiadol i fonitro a dadansoddi perfformiad, h.y. drwy ddefnyddio data.
Lles <i>(Dodge R, Daly A, Huyton J & Saunders L. (2012) The Wellbeing challenge of defining wellbeing, International Journal of Wellbeing, 2 (3), 22-235)</i>	Y pwynt cydbwysedd rhwng cronfa adnoddau unigolyn a'r heriau maen nhw'n eu hwynebu.

Adran 6 – Cymryd Rhan

Mae nifer o ffyrdd o gymryd rhan gyda'r Cyngor. Un o'r prif ffyrdd o gymryd rhan yw drwy eich Cynghorydd lleol. Gallwch ddarganfod pwy yw eich Cynghorydd lleol a sut i gysylltu â nhw drwy fynd i [wefan](#) y Cyngor.

Rydym ni am gynnal cyfranogiad y gymuned a pharhau i ddatblygu ein dealltwriaeth o'r cymunedau ym Merthyr Tudful. Rydym yn eich croesawu i rannu eich barn ar lesiant neu eich syniadau ar sut y gallwn wella llesiant ym Merthyr Tudful yn wellbeing@merthyr.gov.uk.

Mae gan Bwyllgorau Craffu drefniadau i ganiatáu i bobl sy'n byw neu'n gweithio yn ardal yr awdurdod lleol gyflwyno sylwadau a'r unrhyw fater sy'n cael ei drafod. Mae llawer o wahanol ffyrdd y gallech chi fod am gymryd rhan yn y gwaith craffu, gan gynnwys:

- awgrymu pwnc i'r pwyllgor craffu ymchwilio iddo;
- mynychu cyfarfod i wrando ar drafodaeth a'r ddadl;
- mynychu cyfarfod i siarad ar eitem ar yr agenda; neu
- darparu gwybodaeth a thystiolaeth fel tyst, i lywio darn penodol o waith adolygu sy'n cael ei wneud gan bwyllgor craffu.

Canllawiau ar siarad cyhoeddus yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Craffu - mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn croesawu ac yn annog cyfranogiad gweithredol ei drigolion lle bynnag y bo modd ac mae cyfle i aelodau'r cyhoedd siarad yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Craffu ar eitem ar yr agenda.

Bydd Pwyllgorau Craffu yn ystyried ceisiadau i archwilio materion a gyflwynir gan unrhyw sector o'r cyhoedd. Er mwyn bod yn gymwys; rhaid i geisiadau effeithio ar grŵp neu gymuned o bobl; ymwneud â gwasanaeth, digwyddiad neu fater mae gan y Cyngor gyfran sylweddol ynddo; ni ddylai fod yn fater mae craffu wedi'i ystyried yn ystod y 12 mis diwethaf; ni ddylai fod yn fater mae Pwyllgor Cyngor Bwrdeistref Sirol arall yn ymdrin ag ef (e.e. materion cynllunio) ac eithrio pan fo'r mater yn ymwneud â phroses gwneud penderfyniadau'r Cyngor.

Gallwch hefyd ddod o hyd i ni ar:



www.facebook.com/merthyrtydfilcbc



www.twitter.com/merthyrCBC



www.youtube.com/c/MerthyrTydfilCBC

Atodiadau

Atodiad 1 – Rhaglenni Gwaith Cryno Cynllun RTI

Atodiad 1.1 – Datganiad cenhadaeth Cynllun RTI



Ein Datganiad Cenhadaeth

Byddwn yn arloesol ac yn hyblyg i ddiwallu anghenion y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu drwy:

Ymgysylltu â'n holl randdeiliaid;

Mynd i'r rfael â materion drwy fynd i'r afael ag achosion sylfaenol; a

Mabwysiadu ffyrdd newydd o weithio sy'n arwain at ganlyniadau gwell

Atodiad 1.2 – Gwella Ein Safonau Addysg



Gwella ein
Safonau
Addysg



Aelod Cabinet: Y Cyngorydd Lisa Mytton Uwch Swyddog Cyfrifol: Cyfarwyddwr - Dysgu

Amcan Llesiant: Mae plant a phobl ifanc yn cael y dechrau gorau i fywyd ac yn meddu ar y sgiliau sydd eu hangen arnynt i fod yn ddysgwyr llwyddiannus ac yn unigolion hyderus

Pam bod hyn yn flaenoriaeth?	Amcanion ar gyfer y flaenoriaeth hon?	Prosiectau neu Strategaethau
Thema 1: Partneriaeth a Chydweithio Thema 2: Adferiad ar ôl y Pandemig	- Nod 1: Rheoli Perfformiad a Llywodraethu Systemau - Nod 2: Datblygu'r Gweithlu Addysg - Nod 3: Cefnogi Iechyd a Llesiant Dysgwyr - Nod 4: Gwella Cyrhaeddiad a Dilyniant - Nod 5: Datblygu'r Amgylchedd ar gyfer Dysgu	Strategaeth CDCS Prosiect Data (CapitaONE) Ysgolion yr 21ain Ganrif

Felly, beth mae hyn yn ei olygu?

Llwyddiant i bob plentyn

Y cyfle i holl blant a phobl ifanc Merthyr Tudful gael mynediad i addysg o ansawdd uchel fel eu bod yn datblygu'n ddysgwyr galluog ac uchelgeisiol, yn gyfranwyr mentrus a chreadigol, yn ddinasyddion moesegol-wybodus ac yn unigolion iach a hyderus sy'n barod i fyw bywydau llawn.

*Merthyr Tudful ...
... lle i fod yn falch ohono*

Felly, beth sydd angen ei wneud?

Mae angen i bob un ohonom gydweithio i gyflawni ein Strategaeth CDCS. Rhaid inni wella ein harlwy dysgu ar draws y Fwrdeistref Sirol, yn enwedig wrth gefnogi llesiant emosiynol ein dysgwyr wrth inni oresgyn y pandemig. Mae hyn i gyd yn cynnwys mwy o ymgysylltu â phartneriaid a chynyddu atebolrwydd.

*Merthyr Tydfil ...
... a place to be proud of*

Atodiad 1.3 – Cynyddu Ein Gwydnwch mewn Gofal Cymdeithasol



Aelod Cabinet: Y Cyngorydd Tony Rogers
Uwch Swyddog Cyfrifol: Cyfarwyddwr - Gwasanaethau Cymdeithasol



Amcan Llesiant: Mae pobl yn cael eu grymuso i fyw'n annibynnol yn eu cymunedau, lle maent yn ddiogel ac yn mwynhau iechyd corfforol a meddyliol da

Pam bod hyn yn flaenoriaeth?	Amcanion ar gyfer y flaenoriaeth hon?	Prosiectau neu Strategaethau
Mae angen inni fod yn fwy cydnherth i allu cyflawni ein hamcanion llesiant, felly mae angen i ni gryfhau rhai meysydd o'r gwasanaeth a newid ein ffordd o weithio.	Adferiad Gwella Adnoddau a Gwasanaethau Cydnherthedd a Chynaliadwyedd	Addasu ac ymateb i amgylchedd ôl-bandemig Gwella deilliannau'r gwasanaeth a rheoli galluedd a chyllid yn well i ateb y galw Ehangu a gwella'r modd yr ydym yn cydweithio ac yn integreiddio

Felly, beth mae hyn yn ei olygu?

Er mwyn parhau i ddarparu ein gwasanaethau i'r safonau presennol, mae angen inni sicrhau bod y lefelau staffio a'r sgiliau cywir yn eu lle a'n bod yn parhau i weithio mewn partneriaeth i gefnogi'r modd y darperir ein gwasanaeth.

*Merthyr Tudful ...
... lle i fod yn falch ohono*

Felly, beth sydd angen ei wneud?

Byddwn: yn parhau i fonitro neu staffio'r ddarpariaeth yn dilyn y cynnydd mewn adnoddau o ganlyniad i'r ymarferion galluedd a thwf; yn buddsoddi adnoddau ar gyfer ein Tîm Data er mwyn inni fedru gweithio'n fwy effeithlon ac effeithiol; yn adolygu meysydd o'n gwasanaeth i newid ein ffordd o weithio a chynyddu ein cydnherthedd.

*Merthyr Tydfil ...
... a place to be proud of*

Atodiad 1.4 – Adferiad Economaidd



Aelod Cabinet: Y Cyngorydd Geraint Thomas Uwch Swyddog Cyfrifol: Dirprwy Brif Weithredwr



Amcan Llesiant: Mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i ddiwallu gofynion eu busnesau, gyda seilwaith diogel a datblygol sy'n sefydlu Merthyr Tudful fel cyrchfan deniadol

Pam bod hyn yn flaenoriaeth?	Amcanion ar gyfer y flaenoriaeth hon?	Prosiectau neu Strategaethau
Mae angen inni fynd i'r afael â'n hadferiad economaidd er mwyn osgoi diweithdra a chefnogi ein cymunedau	- Gweithredu ein Gweledigaeth 15 mlynedd ar gyfer Economi Merthyr Tudful ynghyd â'n Strategaeth Adfer Economaidd a'n Strategaeth Twf Economaidd gan ddefnyddio ein Bwrdd Adfer Economaidd Parhau i ddadansoddi gweithgareddau a gwasanaethau busnes, gyda ffocws penodol ar effaith y pandemig - Byddwn yn parhau i ddatblygu a chynyddu'r cysylltiadau rhwng y sector busnes a'r ddarpariaeth addysg ym Merthyr Tudful	Gweledigaeth Economaidd 15 mlynedd a Strategaeth Twf Economaidd Bwrdd Adfer yr Economi Ymgysylltiad Busnes Rhaglen Fasnachol Partneriaeth Addysg a Busnes Gyda'i Gilydd

Felly, beth mae hyn yn ei olygu?

Roedd sefyllfa ein heconomi cyn y pandemig yn fregus, ac fe waethygodd yn sgil y pandemig. Mae angen inni gydweithio i wneud ein hadnoddau yn gydnaws â'n busnesau a'n heconomi.

*Merthyr Tudful ...
... lle i fod yn falch ohono*

Felly, beth sydd angen ei wneud?

Mae ein Strategaeth Twf Economaidd, a oruchwylir gan y Bwrdd Adfer Economaidd, yn cynnig llywodraethiant cadarn. Bydd ein Partneriaeth Busnes, Addysg Gyda'n Gilydd, ymhlith pethau eraill, yn adeiladu partneriaethau a chyfleoedd i'n dysgwyr.

*Merthyr Tydfil ...
... a place to be proud of*



Aelod Cabinet: Y Cynghorydd Geraint Thomas



Uwch Swyddog Cyfrifol ar gyfer y Rhaglen Fasnachol:
Dirprwy Brif Weithredwr

Deilliannau'r Rhaglen Fasnachol: Bydd cyflwyno'r rhaglen hon **yn cefnogi'r deilliannau blaenoriaethol** a nodwyd - caiff hyn ei gynnwys yn ein **Rhaglen Waith ar gyfer Adferiad Economaidd**.

Pam bod hyn yn flaenoriaeth?	Amcanion ar gyfer y flaenoriaeth hon?	Prosiectau neu Strategaethau
Drwy fod yn fwy masnachol, gallwn gefnogi cynaliadwyedd ariannol y Cyngor	Amgylchedd Masnachol - Creu amgylchedd sefydliadol sy'n galluogi gweithgaredd masnachol Rhaglen Fuddsoddi - Creu portffolio o gyfleoedd buddsoddi ac adolygu'r contract presennol i sicrhau gwerth am arian	Cynllun Datblygu Masnachol Cynllun Buddsoddi Masnachol Datblygu Tîm Masnachol

Felly, beth mae hyn yn ei olygu?

Mae angen inni fod yn ymwybodol o gyfleoedd masnachol yn ein gwasanaethau ac o'r ffyrdd y gallwn fanteisio arnynt. Gall hyn gynnwys opsiynau ar gyfer buddsoddi-i-arbed.

Felly, beth sydd angen ei wneud?

Yn dilyn cymeradwyaeth y Cyngor i benodi Rheolwr Masnachol fel rhan o'r ymarfer galluedd, rydyn ni'n datblygu rhaglen i fuddsoddi mewn cyfleoedd masnachol fel y gallwn fynd i'r afael â'n her cynaliadwyedd ariannol yn y tymor hir. Rhaid creu amgylchedd masnachol ar draws y Cyngor i fanteisio ar gyfleoedd masnachol.

*Merthyr Tudful ...
... lle i fod yn falch ohono*

*Merthyr Tydfil ...
... a place to be proud of*



Aelod Cabinet: Y Cyngorydd Michelle Jones
Uwch Swyddog Cyfrifol: Cyfarwyddwr - Gwasanaethau Cymdogaeth



Amcan Llesiant: Mae cymunedau'n diogelu, yn gwella ac yn hyrwyddo ein hamgylchedd a'n cefn gwlad

Pam bod hyn yn flaenoriaeth?	Amcanion ar gyfer y flaenoriaeth hon?	Prosiectau neu Strategaethau
Wrth inni oresgyn y pandemig, mae angen ailddefnyddio ac ailgylchu deunyddiau ac adnoddau hyd yr eithaf, yn unol â'r hierarchaeth wastraff	- Datblygu gwybodaeth a chyfranogiad y gymuned i gynyddu cyfraddau ailgylchu - Sicrhau bod yna barhad busnes drwy'r gwasanaeth i gyd Cydweithio â landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a'u cefnogi Lleihau allyriadau carbon o adeiladau, ysgolion a fflyd y Cyngor er mwyn gweithio tuag at ddod yn garbon niwtral erbyn 2030	Cystadlu â'r Jonesiaid Gweithlu rheng flaen Cyfleoedd digidol Rhaglen Ailgylchu ac Ymgysylltu Datgarboneiddio

Felly, beth mae hyn yn ei olygu?

Mae angen inni oresgyn y pandemig er mwyn parhau â'n taith o greu amgylchedd gwell yn awr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

*Merthyr Tudful ...
... lle i fod yn falch ohono*

Felly, beth sydd angen ei wneud?

Mae angen inni ymgysylltu â phartneriaid a'u cynnwys yn ein rhaglenni ailgylchu a datgarboneiddio. Byddwn yn newid ein ffyrdd o weithio ac yn canolbwyntio ar ailddefnyddio, ailgylchu a datgarboneiddio ein hadnoddau.

*Merthyr Tydfil ...
... a place to be proud of*



Aelod Cabinet: Y Cyngorydd Chris Davies

Swyddog Arweiniol: Pennaeth TGCh a Phrint

Deilliannau'r Trawsnewidiad Digidol: ystwythder, hyblygrwydd a chost-effeithiolrwydd wedi gwella; prosesau busnes wedi'u trawsnewid; data yn cael ei ddefnyddio i lywio penderfyniadau yn well ac yn fwy tryloyw

Pam bod hyn yn flaenoriaeth?	Amcanion ar gyfer y flaenoriaeth hon?	Prosiectau neu Strategaethau
Mae angen inni adeiladu ar y gwaith a wnaed yn ystod y pandemig i gefnogi ein gwasanaethau	Gwella ein: • Diwylliant Digidol • Seilwaith Digidol • Economi Ddigidol • Gwybodaeth Ddigidol	Rhaglen Gweithio Ystwyth Datblygu Seilwaith Digidol Trawsnewidiad Digidol – Cefnogi ein Heconomi Prosiect Data

Felly, beth mae hyn yn ei olygu?

Er mwyn inni fedru darparu gwasanaethau sydd eu hangen ar ein preswylwyr yn effeithlon ac yn effeithiol, mae eisiau gwella ein harlwy digidol. Dyma'r modd y llwyddwyd i weithio drwy gydol y pandemig, a gallwn ddysgu o hynny wrth symud ymlaen.

*Merthyr Tudful ...
... lle i fod yn falch ohono*

Felly, beth sydd angen ei wneud?

Gallwn ddefnyddio'r seilwaith yr ydym wedi'i adeiladu a'i ddysgu yn ystod y pandemig i helpu ein staff i ddarparu gwasanaethau a chefnogi ein blaenoriaethau.

*Merthyr Tydfil ...
... a place to be proud of*



Aelod Cabinet: Y Cyngorydd Chris Davies

Swyddog Arweiniol: Pennaeth Adnoddau Dynol

Deilliannau ar gyfer Sefydliad Iach: mwy o gefnogaeth i'r gweithlu ddatblygu syniadau a sgiliau newydd gan helpu i **gynllunio ar gyfer olyniaeth**; lleihau trosiant staff a chynyddu llwyddiant trwy **gymell ein staff a buddsoddi ynddynt**; symud i ffyrdd newydd o weithio trwy **uwchsgilio ein staff**

Pam bod hyn yn flaenoriaeth?	Amcanion ar gyfer y flaenoriaeth hon?	Prosiectau neu Strategaethau
Mae gennym gyfoeth o sgiliau a phrofiad ar draws ein hadnodd mwyaf gwerthfawr, sef y gweithlu. Rhaid inni fuddsoddi yn ein gweithlu i gyflawni ein blaenoriaethau.	Gwella ein gweithlu: - o ran eu sgiliau - o ran eu hymgysylltiad - o ran eu cymhelliad a'u hatebolrwydd	Rhaglen Datblygu Staff Prosiect Gweithio'n Well Gyda'n Gilydd Prosiect Perfformiad ac Atebolrwydd Cefnogi ein Hadferiad

Felly, beth mae hyn yn ei olygu?

Rhaid inni sicrhau y lefelau cywir o staff gyda'r sgiliau cywir i gyflawni newid a gweithio mewn ffyrdd newydd. Bydd hyn yn ein helpu i ddarparu'r gwasanaethau sydd eu hangen ar ein preswylwyr.

*Merthyr Tudful ...
... lle i fod yn falch ohono*

Felly, beth sydd angen ei wneud?

Mae angen i ni: wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd drwy newid ein recriwtio, monitro perfformiad y staff a'u huwchsgilio trwy ddefnyddio technoleg ddigidol, defnyddio cynlluniau ar gyfer prentisiaid a graddedigion i gefnogi'r cynllunio ar gyfer olyniaeth ac uwchsgilio ein gweithlu.

*Merthyr Tydfil ...
... a place to be proud of*



Aelod Cabinet: Y Cyngorydd Chris Davies

Uwch Swyddog Cyfrifol: Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol

Deilliannau Llywodraethiant Gwell: gwneud penderfyniadau gwybodus a thryloyw; parhau i weithredu'n **ddemocrataidd** ac ailffocysu ein **swyddogaeth graffu**; bydd gan ein Haelodau Etholedig ffocws cliriach o'u rôl a bydd eu Cofnodion Datblygiad Proffesiynol wedi'u diweddaru.

Pam bod hyn yn flaenoriaeth?	Amcanion ar gyfer y flaenoriaeth hon?	Prosiectau neu Strategaethau
Rhaid inni ymgysylltu'n effeithiol i wella'r ffordd yr ydym yn gweithio, gan gynnwys y ffordd yr ydym yn herio perfformiad ac yn cynyddu atebolrwydd, er mwyn rheoli risg a chyflawni ein blaenoriaethau.	Gwelliant o ran: Hybu Democratiaeth Ddigidol Cyflawni Deilliannau Dangos Atebolrwydd	Rhaglen Democratiaeth Ddigidol Rhaglen Aeddfedrwydd Llywodraethiant Rhaglen Datblygu Gwaith Craffu Rhaglen Perfformiad

Felly, beth mae hyn yn ei olygu?

Mae angen inni barhau i ganolbwyntio ar ddeilliannau ar gyfer ein trigolion. I wneud hyn, mae angen inni ddiffinio rolau a swyddogaethau yn glir, gyda'r staff yn gweithio ar sail gwerthoedd craidd ynghyd â'r sgiliau a'r gallu priodol sydd eu hangen arnynt i gyflawni.

*Merthyr Tudful ...
... lle i fod yn falch ohono*

Felly, beth sydd angen ei wneud?

Datblygu ein Tîm Data ymhellach, gan adeiladu ar y staff ychwanegol a gymeradwywyd fel rhan o'r ymarferion galluedd a thwf. Byddwn yn parhau i ddiweddaru ein cyfansoddiad a'n dogfennau llywodraethiant fel eu bod yn adlewyrchu ein trawsnewidiad. Byddwn yn datblygu ein hopsiynau digidol ymhellach i wneud yn siŵr y gall democratiaeth barhau i weithredu yn ystod y pandemig.

*Merthyr Tydfil ...
... a place to be proud of*

Atodiad 2 – Y 7 Nod Llesiant Cenedlaethol

	Nodau Cenedlaethol	Rhannau o'r Cynllun RTI sy'n gwella'r ffordd rydym ni'n cyfrannu at y Nodau Cenedlaethol
	Cymru Ffyniannus Mae defnydd effeithlon o adnoddau, pobl fedrus, addysgedig, yn creu cyfoeth, ac yn darparu swyddi	Gwella ein Safonau Addysg Adferiad Economaidd Llesiant Amgylcheddol Sefydliad Iach Rhaglen Fasnachol
	Cymru Gydnerth Cynnal a gwella bioamrywiaeth ac ecosystemau sy'n cefnogi gwydnwch ac sy'n gallu addasu i newid (e.e. newid yn yr hinsawdd)	Llesiant Amgylcheddol Trawsnewid Digidol
	Cymru Iachach Gwneud y gorau o les corfforol a meddyliol pobl ac mae effeithiau iechyd pobl yn cael eu deall	Gwella ein Safonau Addysg Cynyddu ein gwydnwch ym maes Gofal Cymdeithasol Sefydliad Iach
	Cymru Fwy Cyfartal Gall pobl gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau	Adferiad Economaidd Sefydliad Iach Trawsnewid Digidol
	Cymru o Gymunedau Cydlynus Mae cymunedau'n ddeniadol, yn hyfyw, yn ddiogel ac wedi'u cysylltu'n dda	Adferiad Economaidd Llesiant Amgylcheddol
	Cymru o Ddiwylliant Bywiog a'r Gymraeg yn Ffynnu Mae'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru yn rhan annatod o'n cymunedau, ac yn cyfrannu at dreftadaeth gyfoethog y wlad	Adferiad Economaidd Gwella Llywodraethu
	Cymru sy'n Fyd-eang Gyfrifol Ystyried yr effaith ar lesiant byd-eang wrth ystyried lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol lleol	Gwella ein Safonau Addysg Cynyddu ein gwydnwch ym maes Gofal Cymdeithasol Adferiad Economaidd Llesiant Amgylcheddol

Mae ein **Hasesiad o Effaith Integredig** (IIA) diweddaraf yn chwarae rhan allweddol yn y ffordd rydym ni'n asesu'r effaith ar y 7 nod llesiant cenedlaethol hyn yn ogystal â rhannau eraill o'r Ddeddf, nodweddion gwarchodedig, yr iaith Gymraeg, bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau ac anfantais economaidd-gymdeithasol. Gofynnodd yr IIA hefyd i ddata gael ei ddefnyddio fel rhan o'r asesiad ynghyd â sut y cynhaliwyd cyfathrebu ac ymgysylltu (lle bo angen).

Adran 1 – Pam rydym ni angen Rheoli Perfformiad a Sicrhau Ansawdd?

Beth yr ydym am ei gyflawni?


Rydym ni am weithio gyda'n gilydd i sicrhau'r canlyniadau gorau i drigolion Merthyr Tudful wrth gyflawni ein gweledigaeth gyffredin. Mae hyn hefyd yn golygu ein bod i gyd yn glir ynglŷn â'r hyn yr ydym ni'n ceisio'i gyflawni.

Yn ein Cynllun Llesiant Corfforaethol – Ffocws ar y Dyfodol 2021/22, rydym yn nodi ein 4 amcan llesiant a chanlyniadau blaenoriaeth. Rydym yn esbonio sut mae angen i'r Cyngor ei hun weithio fel un a gyda phartneriaid i gyflawni'r amcanion hyn a chyflawni'r canlyniadau. Bydd the mâu trawsbynciol a gwasanaethau cymorth yn ein helpu i gyflawni hyn a mynd i'r afael â rhai o'n heriau ehangach megis sut rydym ni'n trechu tlodi.

Er mwyn gwneud hyn i gyd, rydym yn parhau i ganolbwyntio ar ein blaenoriaethau a chefnogi ein hadferiad o bandemig y coronafeirws, rydym ni wedi datblygu 'Cynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella 2020 i 2025'. Mae hwn yn nodi tair blaenoriaeth ar gyfer gwella a sut maen nhw'n cysylltu â'n canlyniadau blaenoriaeth.

Dyma ein 3 blaenoriaeth ar gyfer gwella:

Bydd y rhain yn mynd i'r afael â'n canlyniadau blaenoriaeth:



Ond sut rydym ni'n gwybod p'un a ydym yn cyflawni hyn?

Er mwyn deall hyn yn well, mae angen i ni ofyn cwestiynau heriol fel:

- A ydym wedi gwneud yr hyn y gwnaethom ni ei ddweud ein bod ni'n mynd i'w wneud?
- A ydym wedi cyflawni'r hyn yr oeddem yn bwriadu ei gyflawni?
- Ydy hyn yn bodloni'r safonau mae ein defnyddwyr gwasanaeth eu hangen?

Mae'r rhain yn gwestiynau y byddem yn ei chael yn anodd eu hateb heb reoli perfformiad yn effeithiol ac yn effeithlon a sicrhau ansawdd.

Felly, rydym am i'r fframwaith hwn ein helpu i:

- sicrhau y gallwn ateb y cwestiynau hyn yn effeithiol ac yn effeithlon ond yn bwysicach fyth trawsnewid er mwyn gwella a darparu gwell canlyniadau i'n trigolion;
- mabwysiadu dull cyson o reoli perfformiad a sicrhau ansawdd yn seiliedig ar gylch parhaus o 'wella'r cynllun i adolygu';
- creu amgylchedd lle mae staff yn deall yn glir eu cyfrifoldebau a fydd yn cefnogi ein trefniadau llywodraethu i gryfhau atebolrwydd;
- alinio ein hadnoddau'n effeithiol, yn effeithlon ac yn economaidd fel ein bod yn parhau i fod yn gynaliadwy wrth gyflawni ein gweledigaeth gyffredin; a
- defnyddio ein data i wneud penderfyniadau gwybodus gan ddefnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy, y pum ffordd o weithio.

Pum ffordd o weithio



Tymor Hir



Atal



Integreiddio



Cydwethio



Ymglymiad

Pam fod hyn yn bwysig?

Mae'r fframwaith Rheoli Perfformiad a Sicrhau Ansawdd hwn yn nodi dulliau cadarn fel y gallwn reoli ein perfformiad a sicrhau ansawdd. Mae hyn yn cynnwys sut rydym yn casglu gwybodaeth a data, sut rydym yn dadansoddi hyn ac yn cyflwyno ein canfyddiadau. Bydd yn ein helpu i sicrhau ein bod yn dilyn ein systemau a'n prosesau yn gyson ar draws y Cyngor.

Bydd hyn yn ein helpu i gynnwys ein cymunedau yn y ffordd yr ydym yn bodloni ein gofynion perfformiad ac yn ein swyddogaeth graffu. Rydym am sicrhau bod pawb yn glir ynglŷn â'r hyn rydym ni'n ei wneud a sut y bydd hyn yn gwella ein canlyniadau drwy weledigaeth y Cyngor.

Bydd ein tîm arwain yn defnyddio'r dulliau gweithredu yn y ddogfen hon i gefnogi cyfathrebu â'n Staff a'n Haelodau Etholedig. Byddwn yn gallu egluro ein sefyllfa'n well, sut rydym yn gwella o bandemig y coronafeirws ac yn trawsnewid i wella.


Mae hyn yn cefnogi sut rydym ni'n gwneud penderfyniadau mwy gwybodus, yn cynnal craffu gwell, yn meddwl yn flaengar ac yn dwyn staff a'r Cabinet i gyfrif. Mae hyn yn gwella ein trefniadau llywodraethu ymhellach.

Mae'r fframwaith hwn yn ein galluogi i wella atebolrwydd a sut rydym ni i gyd yn deall ein rolau a'n cyfrifoldebau o ran bod yn rhan o'r fframwaith i wella ein canlyniadau. Unwaith eto, mae hyn yn rhan hanfodol o wella llywodraethu'r Cyngor.

Drwy fabwysiadu'r dull hwn byddwn yn mynd i'r afael â'r cwestiwn 'felly beth?' - Rydym ni'n canolbwyntio ar wella canlyniadau i'n trigolion ac mae hyn yn parhau i fod wrth wraidd yr hyn rydyn ni'n ei wneud.

Adran 2 – Beth mae ein Rheoli Perfformiad a Sicrhau Ansawdd yn ei gynnwys?

I ateb y cwestiwn hwn, rhaid i ni edrych yn gyntaf ar sut yr ydym yn gweithio. Mae ein gwaith rheoli perfformiad yn seiliedig ar gylch o adolygu a gwella parhaus. Rydym yn defnyddio'r egwyddor '**Cynllunio – Gwneud – Adolygu – Gwella**'. Mae hyn yn sail i ddull gwelliant parhaus y Cyngor o ran perfformiad.



Enw ein prif **gynllun** yw ein Cynllun Corfforaethol (Canolbwyntio ar y Dyfodol – Llesiant yn ein cymunedau 2017 i 2022). Mae'r cynllun hwn yn cynnwys ein blaenoriaethau ar gyfer gwella. Datblygwyd y rhain fel rhan o Gynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella'r Cyngor. Mae'r Cynllun RTI yn esbonio'r hyn mae angen i ni ei wneud i wella, byddwn yn cael gwybod mwy am hyn yn adran 4 isod.

Er mwyn caniatáu i ni **wneud** yr hyn sydd yn ein cynlluniau a'n strategaethau lefel uchel, mae gennym ni ddulliau gweithredu ar gyfer gwasanaethau ar draws y Cyngor. Mae Adran 5 yn esbonio hyn yn fanylach. Mae'r cynlluniau strategol a'r cynlluniau lefel gwasanaeth hyn yn cyd-fynd â chynlluniau datblygu a gweithredu unigol. Rydym yn galw hyn yn 'Ffocws ar Fy Mherfformiad'.

Byddwn yn parhau i **adolygu** ein perfformiad er mwyn canfod pa mor dda rydym ni'n ei wneud. Byddwn yn ystyried ein perfformiad corfforaethol, perfformiad gwasanaeth a pherfformiad staff unigol. Mae hyn yn cael ei esbonio yn fanylach yn adran 6 isod. Mae pob aelod o staff yn cael adolygiadau rheolaidd gyda'u rheolwr a gwneir cysylltiadau â chymau gweithredu unigol hyd at amcanion ein Cyngor i gyflawni ein gweledigaeth gyffredin (cyfeirir at hyn yn aml fel y 'llynyn euraid').

Byddwn yn **gwella** drwy ymgynghori ar berfformiad a defnyddio data a chanfyddiadau i nodi cynlluniau gwella sy'n ystyried nodau economaidd, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd. Byddwn yn adrodd ar hyn er mwyn sicrhau ein bod yn agored, yn dryloyw ac yn cael ein dwyn i gyfrif. Mae hyn yn cael ei wneud drwy ein prosesau llywodraethu a chanolbwyntio ein hadnoddau ar wella ein canlyniadau.

Er mwyn i'r cylch hwn fod yn effeithiol ac yn effeithlon, rhaid i'n gwaith o reoli perfformiad a sicrhau ansawdd ofyn y cwestiynau cywir. Er enghraifft, bydd ein gwaith rheoli perfformiad yn gofyn faint o rywbeth sydd wedi'i wneud neu faint o bethau sydd wedi'u cynhyrchu, tra bod si crwydd ansawdd yn gofyn pa mor dda mae wedi'i wneud a p'un a yw wedi bodloni disgwyliadau. Pan gaiff y 2 elfen hyn eu cyfuno, gallwn sicrhau bod ein gwelliant yn amserol, gan gyrraedd ein targedau, pa mor dda rydym ni'n gwneud a'r effaith ar ein canlyniadau.

Ein Hegwyddorion

Rydym wedi gweithio gydag Aelodau Etholedig, Aelodau Craffu a'n Swyddogion i ddatblygu egwyddorion ar gyfer rheoli perfformiad a sicrhau ansawdd yn effeithiol. Mae'r egwyddorion hyn yn cyd-fynd yn uniongyrchol â'n model gweithredu.


- **Gweithio gyda'n gilydd i oresgyn ein heriau**
- **Defnyddio data i wneud penderfyniadau gwybodus**
- **Monitro ein perfformiad yn rheolaidd a chryfhau ein swyddogaeth graffu gan ofyn y cwestiwn 'pa wahaniaeth'**
- **Cryfhau ein hunan-arfarnu a datblygu ein hadroddiadau hunanasesu i arwain at ganlyniadau gwell**
- **Defnyddio rheoli perfformiad a sicrhau ansawdd i gryfhau ein llywodraethu a'n hatebolrwydd**
- **Dathlu llwyddiant**

Adran 3 – Ein Fframwaith Llywodraethu


Rydyn ni angen llywodraethu da i ategu ein fframwaith rheoli perfformiad a sicrhau ansawdd ac, yn wir, y cyfan rydym ni'n ei wneud.

Rydym ni am weithio gyda'n gilydd i sicrhau'r canlyniadau gorau y gallwn i drigolion Merthyr Tudful. Mae hyn yn canolbwyntio ar sut mae Aelodau Etholedig a Swyddogion y Cyngor yn deall ac yn diwallu anghenion ein trigolion. Nid ydym yn mynd i wneud hyn ar ein pen ein hunain, rydym am gael barn ein trigolion, busnesau, partneriaid, staff ac undebau llafur i lywio ein syniadau.

Mae'r diagram gyferbyn yn dangos y cysylltiadau rhwng Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a llywodraethu da. Mae piler i'r Ddeddf (Lles Economaidd, Cymdeithasol, Amgylcheddol a Diwylliannol) yn caniatáu datblygu cynaliadwy. Drwy gyplu hyn â defnydd effeithlon ac effeithiol o adnoddau gallwn wneud y mwyaf o'n cyfraniadau at y nodau cenedlaethol. Drwy ddefnyddio'r 5 ffordd o weithio (o'r Ddeddf) gallwn gryfhau'r ffordd rydym yn cyflawni ein llywodraethu.



Ffynhonnell: 'Fframwaith Rhyngwladol a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015'; Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru




Er enghraifft, byddai rheoli risg, cyllid a pherfformiad drwy fod yn ataliol ac ystyried y tymor hir yn fanteisiol iawn. Mae'r diagram hwn yn sail i'n fframwaith llywodraethu.

Mae 'Ein Fframwaith Llywodraethu' yn adeiladu ar ddiagram 'Fframwaith Rhyngwladol a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015' drwy gymhwyso elfennau allweddol ein llywodraethu a'n rhanddeiliaid mewn cylch sy'n arwain o'n Cynllun Llesiant Corfforaethol hyd at gynlluniau gwasanaeth ac unigol. Mae hyn yn adlewyrchu'r 'llynyn euraid' drwy'r sefydliad.

Pan gaiff y diagramau hyn eu cymhwyso gyda'i gilydd, gallwn ddangos llywodraethu da drwy ein prosesau. Mae hyn yn sail i'n gwaith rheoli perfformiad a sicrhau ansawdd.

Mae gan ein Cabinet, ein Pwyllgorau Craffu a'n Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio flaengynlluniau i'n galluogi i gynllunio ymlaen llaw ac ychwanegu her adeiladol i sicrhau gwell canlyniadau. Er enghraifft, mae Blaengynllun y Cabinet yn rhestr o'r holl benderfyniadau allweddol ac adroddiadau gwybodaeth sydd i'w gwneud gan y Cabinet. Mae penderfyniadau allweddol yn benderfyniadau pwysig sy'n debygol o naill ai gael effaith sylweddol ar gymunedau sy'n byw neu'n gweithio yn y Fwrdeistref Sirol neu arwain at wario neu wneud arbedion gan y Cyngor. Yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, caiff Blaengynllun y Cabinet ei ddiweddarau bob chwarter.

Mae gan ein Pwyllgorau Craffu a'n Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gynlluniau ar gyfer y flwyddyn ac maen nhw'n defnyddio Blaengynllun y Cabinet (ynghyd â strategaethau a pholisïau allweddol) i lywio eu cynlluniau. Mae'r Flaenraglen Waith Craffu yn rhestru'r pynciau i'w hystyried gan un o bwyllgorau craffu'r Cyngor.



Elfennau Allweddol Ein Fframwaith

Mae ein Gweledigaeth Gyffredin yn seiliedig ar ein Cynllun Llesiant Corfforaethol (Ffocws ar y Dyfodol). Mae penderfyniadau strategol yn cael eu gwneud gan ein Haelodau Etholedig.


Yn ein Cynllun Llesiant Corfforaethol – Ffocws ar y Dyfodol 2021/22, rydym yn nodi ein 4 canlyniad blaenoriaeth ac amcanion llesiant. Rydym hefyd yn esbonio sut mae 'Trechu Tlodi' yn thema drawsbynciol. Mae hyn yn golygu y dylai popeth rydyn ni'n ei wneud drechu tlodi ar draws y Fwrdeistref Sirol. Er mwyn gwneud hyn i gyd, a chefnogi ein hadferiad yn dilyn pandemig y coronafeirws, rydym wedi datblygu 'Cynllun Adfer, Trawsnewid a Gwellu 2020 i 2025'.

Thema Llesiant	Amcan	Prif Ganlyniad
 Dechrau Gorau	Mae plant a phobl ifanc yn cael y dechrau gorau i fywyd ac maen nhw'n meddu a'ysgiliau maen nhw eu hangen i fod yn ddysgwyr llwyddiannus ac yn unigolion hyderus.	Gwellu'r canlyniadau a ddysgol a'gyfer pob plentyn a phobl ifanc
 Bywyd Gwaith	Mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i ddiwallu anghenion busnesau, gyda seilwaith diogel sy'n datblygu ac sy'n gwneud Merthyr Tudful yn gyrchfan ddeniadol.	Datblygu'r amgylchedd a'r seilwaith i fusnesau ffynnu
 S Amgylcheddol	Mae cymunedau'n diogelu, yn gwella ac yn hyrwyddo ein hamgylchedd a chefn gwlad.	Gwneud y defnydd mwyaf effeithlon o ddeunyddiau ac adnoddau drwy gyfrwng yr hierarchaeth gwastraff
 Byw'n Dda	Mae gan bobl y grym i fyw'n annibynnol yn eu cymunedau, lle maen nhw'n ddiogel ac yn mwynhau iechyd corfforol a meddyliol da.	Sicrhau bod pobl yn gallu byw'n annibynnol ac yn ddiogel yn eu cymunedau



Trechu Tlodi

Mae trechu tlodi yn thema drawsbynciol yn ein Cynllun Llesiant Corfforaethol. Mae tlodi yn un o brif achosion llawer o faterion rydyn ni'n eu hwynebu nawr aci'r dyfodol, yn enwedig yn dilyn pandemig y coronafeirws. Mae'r cylch tlodi yn dangos sut y gallwn, os byddwn yn gweithio ar draws ein hamcanion da, gael effaith gadarnhaol ar y cylch. O'r herwydd, mae angen i ni integreiddio ein strategaethau a chydweithio i fynd i'r afael â'r mater ofnadwy hwn. Rydym yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy (5 ffordd o weithio) i fynd i'r afael â thlodi, ac wrth wneud hynny, ein helpu i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r 7 nod cenedlaethol yn well.



Adfer → Trawsnewid → Gwella – Ein Cynllun 2020 i 2025

Rydym ni wedi bod yn gweithio gyda Bwrdd Gwella a Sicrwydd a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r bwrdd hwn wedi ein helpu i flaenoriaethu, ailffocysu a chryfhau meysydd allweddol y Cyngor. Arweiniodd hyn at ddatblygu ein 'Cynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella'. Un o brif ffocws y Cynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella (y cyfeirir ato'n aml fel y Cynllun RTI) yw sicrhau y gallwn gyflawni ein strategaethau, ein hamcanion llesiant, ein cynllun corfforaethol a'n blaenoriaethau yn economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol er mwyn sicrhau gwell canlyniadau i drigolion Merthyr Tudful. Mae hyn wedi'i dargedu yn ein 3 maes blaenoriaeth. Ein 3 blaenoriaeth yw: gwella ein safonau addysg, cynyddu ein gwydnwch ym maes gofal cymdeithasol a chefnogi adferiad economaidd.



Gwella ein
Safonau Addysg



Cynyddu ein
Cydnwdd mewn
Gofal Cymdeithasol



Adferiad
Economaidd

Mae ein **hadroddiad perfformiad blynyddol** (sy'n cael ei ddisodli gan ein hadroddiad hunanasesu yn 2022 fel rhan o'n hymateb i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021) yn nodi perfformiad y Cyngor yn flynyddol. Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar ein gwaith parhaus o fonitro perfformiad drwy gydol y flwyddyn.

Caiff hyn ei herio drwy gydol y flwyddyn fel rhan o'n **swyddogaeth graffu** (craffu gan Aelodau Etholedig) ac **adolygiadau perfformiad a gwella chwarterol**.

Yn ogystal â **hunanwerthuso** mae'r Cyngor yn ystyried ei **ddata perfformiad** (gan gynnwys meincnodi a data tueddiadau) cyn dod i benderfyniadau cyffredinol yn erbyn ein hamcanion llesiant (gan gynnwys sut mae gwasanaethau'n perfformio wrth gyflawni ein hamcanion).

Nodir hyn yn ein **strategaethau ar dudalen (SOAPs)** i dimau eu defnyddio i fonitro perfformiad. Mae ein **Cynlluniau Gwella Busnes (BIPs)** yn rhoi cynlluniau gweithredu gweithredol ar waith sy'n canolbwyntio ar sut a beth sydd angen i ni ei wella. Caiff y rhain eu monitro fel rhan o drefniadau rheoliadrannol.


Mae ein **hadolygiadau perfformiad a gwella chwarterol (QPIRs)** yn cynnig her dan arweiniad swyddogion sy'n ategu ein swyddogaeth graffu. Mae'r QPIRs yn caniatáu i'r uwch dîm arwain a'r Cabinet herio perfformiad (ac agweddau eraill ar lywodraethu) a phrofi'r effaith ar ein canlyniadau. Mae hyn yn cyd-fynd â'n **Bwrdd Cyllideb** misol (monitro cyllid) sy'n canolbwyntio ar ein sefyllfa ariannol a'n **Cofrestr Risgiau Corfforaethol**. Mae ein hadroddiadau QPIR yn cynnwys data a chyd-destun ynghylch perfformiad, data Adnoddau Dynol, data Cyllid, Canmoliaeth a Chwynion, Risg, cynnydd yn erbyn cyflawni ein Cynllun RTI, argymhellion archwilio a data cyffredinol y Fwrdeistref Sirol.

Mae **cynlluniau lefel gweithredol** eraill yn ategu cynlluniau strategol, er enghraifft cofrestrau risg gweithredol a'r gofrestr risg gorfforaethol, cynlluniau'r gweithlu a rhaglen waith y Sefydliad Iach.

Mae ein proses '**Ffocws ar Fy Mherfformiad**' yn cysylltu'r camau gweithredu corfforaethol a gwasanaeth hyn â pherfformiad aelodau staff. Rydym ni'n cynnal adolygiadau blynyddol a chwe misol yn ogystal â chyfarfodydd 1 i 1 rheolaidd rhwng aelodau o staff a'u rheolwr llinell.

Mae hyn yn creu llinyn rhwng gweithredoedd unigol yr holl ffordd drwodd i'r Cynllun Llesiant Corfforaethol a'n Gweledigaeth Gyffredin – cyfeirir at hyn yn aml fel y '**llynyn euraid**'.

Cwblheir **Asesiad o Effaith Integredig (IIA)** fel rhan o bob rhaglen/prosiect a gwneir pob penderfyniad yn y Cyngor neu'r Cabinet. Mae ein IIA yn chwarae rhan allweddol yn y ffordd rydym ni'n asesu'r effaith ar y 7 nod Llesiant cenedlaethol hyn (yn ogystal â rhannau eraill o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), nodweddion gwarchodedig, yr iaith Gymraeg, bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau ac anfantais economaidd-gymdeithasol. Gofynnodd yr IIA hefyd i ddata gael ei ddefnyddio fel rhan o'r asesiad ynghyd â sut y cynhaliwyd cyfathrebu ac ymgysylltu (lle bo angen).



Ein Gwerthoedd Craidd a'n Model Gweithredu

Mae gennym ni 7 gwerth craidd sydd wedi'u datblygu gyda'n staff. Rydym yn gweithio i'r gwerthoedd craidd hyn wrth gyflawni ein rolau. Mae hyn yn creu'r diwylliant rydyn ni am weithio iddo.

Mae gennym fodel gweithredu sy'n cyd-fynd â'n gwerthoedd craidd. Mae ein model gweithredu sydd wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor wedi'i gynllunio i nodi sut y byddwn yn darparu ein gwasanaethau.



Adran 4 – Sut byddwn ni'n cynllunio?

Byddwn yn defnyddio'r egwyddor 'Cynllunio – Gwneud – Adolygu – Gwella'. Mae hyn yn sail i ddull gwelliant parhaus y Cyngor o ran perfformiad.

Mae ein gweledigaeth gyffredin (atodiad 1) yn nodi'r weledigaeth ar gyfer y Cyngor yn y cyd-destun rhanbarthol a chenedlaethol. Mae hyn yn cyd-fynd â'n 7 nod cenedlaethol, ynghyd â sut mae ein 4 amcan llesiant yn cyd-fynd ag amcanion llesiant rhanbarthol ein Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Enw ein prif **gynllun** yw ein Cynllun Llesiant Corfforaethol (Canolbwyntio ar y Dyfodol – Llesiant yn ein cymunedau 2017 i 2022). Mae hwn yn nodi'r hyn rydym ni'n mynd i'w wneud ac yn cael ei gynnwys yn ein hamcanion a'n canlyniadau llesiant. Er mwyn cynnal ffocws, rydym wedi nodi'r 4 prif ganlyniad sy'n cael yr effaith fwyaf wrth wireddu ein hamcanion.


Mae ein 'Datganiad Llesiant' yn cyd-fynd â'n Cynllun Llesiant Corfforaethol ac yn nodi pam rydym ni'n gwneud yr hyn a nodwyd.

Nid ydym yn mynd i wneud hyn ar ein pen ein hunain, rydym am gael barn ein trigolion, busnesau, partneriaid, staff ac undebau llafur i lywio ein syniadau.

Y Cyngor a'r Cabinet yw prif haen gwneud penderfyniadau lefel uchel y Cyngor.

Datblygwyd ein Cynllun RTI i fynd i'r afael â meysydd a allai gael effaith andwyol ar gyflawni ein gweledigaeth gyffredin. Mae'r Cynllun RTI yn pennu 3 blaenoriaeth gwella. Mae cynlluniau'r gweithlu yn caniatáu i bob adran o'r Cyngor nodi sut y bydd yn defnyddio ei adnoddau i gyflawni'r canlyniadau gofynnol. Mae'r cynlluniau hyn yn cael eu datblygu fel rhan o raglen waith 'Sefydliad Iach' yn y Cynllun RTI.

Mae hyn yn golygu bod 'llinyn euraid' drwy bopeth rydyn ni'n ei wneud. Mewn geiriau eraill, mae gan bob aelod o staff amcanion sydd wedi'u gosod i gyflawni nodau tîm sydd yn ei dro yn ein helpu i gyflawni ein hamcanion llesiant i gyfrannu at ein nodau cenedlaethol.



Adran 5 – Beth fyddwn ni'n ei wneud?

Er mwyn caniatáu i ni **wneud** yr hyn sydd yn ein cynlluniau a'n strategaethau lefel uchel, mae gennym ni ddulliau gweithredu ar gyfer gwasanaethau ar draws y Cyngor. Mae'r rhain wedi'u crynhoi yn Strategaethau ar Dudalen (SOAPs). Mae'r SOAPs yn ein galluogi i adolygu a gwella'r hyn rydyn ni'n ei wneud hefyd drwy gynnwys y nod, sut mae gwasanaethau eraill yn cyfrannu at y SOAP, y canlyniadau a'r dangosyddion perfformiad allwe ddol. Yn eistedd o dan y SOAPs mae gennym ni Gynlluniau Gwella Busnes (BIPs). Mae'r rhain yn nodi beth mae wasanaethau'n ei wneud i gyflawni'r strategaethau. Mae ein Staff yn cynnal adolygiadau 'Ffocws ar Fy Mherfformiad' ddwywaith y flwyddyn (ynghyd â chyfarfodydd 1 i 1 rheolaidd gyda'u rheolwr lli nell) i gysylltu eu rolau unigol â strategaethau a chynlluniau gwasanaeth a sut mae hyn yn cyd-fynd i gyflawni ein hamcanion a chyflawni ein gweledigaeth gyffredin. Mae ein SOAPs a'n BIPs yn cael eu defnyddio gan dimau i gyflawni. Mae cyfarfodydd tîm yn ategu'r dull hwn drwy wneud cysylltiadau rhwng amcanion unigol a nodau tîm. Mae hyn yn cael ei wneud yn aml mewn dull 'pentwr' i wneud y defnydd gorau o amser staff a chanolbwyntio ar gyflawni. Ateir hyn wedyn gan gyfarfodydd tîm hirach yn ôl y gofyn.

Rydym ni'n defnyddio ein fframwaith rheoli prosiect i gyflawni prosiectau. Mae hyn yn seiliedig ar arddull draddodiad 'PRINCE2' ond gellir ei addasu i ddefnyddio dulliau mwy modern fel technegau rheoli prosiect 'Ystwyth'. Os oes bylchau sgiliau, bydd y 'Ffocws ar Fy Mherfformiad' yn ei nodi a gellir ei gynnwys yn ein cynlluniau gweithlu a/neu gwricwlwm Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful sy'n cael ei ddatblygu i gefnogi ein staff. Mae ein dull e-berfformiad newydd ar gyfer 'Ffocws ar Fy Mherfformiad' yn ein galluogi i fonitro'r broses yn fwy effeithlon ac effeithiol fel y gellir treulio mwy o amser yn datblygu ein staff.

Pan fyddwn ni'n ystyried cyflawni a pherfformiad, rydym yn defnyddio'r egwyddor 'SMART'.

Mae'r Cyngor yn parhau i ddatblygu ei weithlu i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun RTI a gwasanaethau ehangach. Rydym wedi parhau i gyflogi prentisiaid a chynyddu ein capasiti.

Mae ein timau Rheolaeth Gorfforaethol ac Uwch Arweinwyr yn darparu gwasanaethau yn unol â'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud yn y Cabinet a'r Cyngor ac yn unol â'n Cynllun Llesiant Corfforaethol.

Bydd rhwydwaith ein rheolwr yn ein helpu ymhellach i gydweithio ar draws y Cyngor.

PM CRA

Penodol	Mesuradwy	Cyflawnadwy	Realistig	Wedi ei Amseru
- Beth yn union ydyn ni angen ei wneud a pha ganlyniadau ydyn ni'n eu disgwyl? - Oes digon o fanylion i gyflawni hyn?	- Ydyn ni'n gally mesur yr hyn rydym wedi ei gyflawni? - Sut fyddwn ni'n gwybod ei fod wedi ei wneud? - Pa ddata sydd ar gael? - Pa ddangosyddion fyddwn ni'n eu defnyddio i fesur llwyddiant?	- Ydy hwn yn ffitio gyda yr hyn rydym yn ceisio ei gyflawni yn ein cynlluniau strategol e.e.Cynllun Lles Corfforaethol neu Gynllun LIAW? - Ydyn ni'n gallu cyflawni hyn?	- Ydyn ni neu chi y pobl iawn i wneud hyn? - Pa gefnogaeth sydd ei angen? - Iydy'r cynnig yn gyflawnadwy wrth ystyried yr holl baramedrau?	- Ydyn ni wedi gosod terfyn amser penodol? - Oes cerrig milltir wedi eu gosod? - Beth sy'n digwydd os ydym yn mynd dros amser? - Yw gweithgareddau eraill yn dibynu ar y terfyniad amser hyn?

Adfer → Trawsnewid → Gwella – Ein Cynllun 2020 i 2025

Mae ein 'Cynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella' yn rhan bwysig o'n gwelliant. Un o brif ffocws y Cynllun RTI yw sicrhau y gallwn gyflawni ein strategaethau, ein hamcanion llesiant, ein cynllun corfforaethol a'n blaenoriaethau yn economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol er mwyn darparu gwell canlyniadau i drigolion Merthyr Tudful. Mae hyn wedi'i dargedu yn ein 3 maes blaenoriaeth.

Mae gennym raglenni gwaith eraill i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun RTI a'r 3 blaenoriaeth. Mae'r rhain wedi'u crynhoi fel ein blaenoriaethau Llesiant Amgylcheddol ac maen nhw'n cefnogi'r cynllun.

WELSH STRATEGY FOR WELL-BEINGED AND IMPROVEMENT IN QUALITY



Ein blaenoriaethau ar gyfer adfer a gwella

- BS Addysg –Codi Safonau
- LW Gwasanaethau Cymdeithasol – Cynnyddu gwydnwch
- WL Adferiad Economaidd

Fe gytnom ein ffocws ar Les Amgylcheddol a Cefnogi y Newid



Mae'r cynllun ATG yn ffocysu ar **leihau carbon** a chwrdd a'n **Hierarchaeth Gwastraff** wrth gefnogi **Lles Amgylcheddol**.

Mae'r cynllun ATG yn ein helpu gwneud hyn trwy ystyried ein cyfleoedd digidol (**Trawsnewid Digidol**), gan ein galluogi i fod yn fwy ymwybodol yn fasnachol (**Rhaglen Fasnach**), cael yr adnoddau cywir (**Hsefydliad Iach**) a llywodraethu da h.y. y ffordd rydym yn gweithio (**Gwella Llywodraethu**).



Merthyr Tudful ...
... lle i fod yn falch ohono

Merthyr Tydfil ...
... a place to be proud of

Ni allwn wneud popeth ar ein pennau ein hunain. Rydym ni wedi gwneud partneriaethau cryf wrth ymateb i bandemig y coronafeirws ac rydym ni am adeiladu ar hyn. Bydd integreiddio ein cynlluniau a chydweithio i ddefnyddio ein hadnoddau yn ein hel pu i gyflawni ein hamcanion llesiant yn well ac yn arwain at ganlyniadau gwell i'n trigolion

Adran 6 – Sut byddwn ni'n adolygu?

Golwg Strategol

Er mwyn **adolygu** sut rydym ni'n gwneud, rydym yn ystyried ein perfformiad corfforaethol, gwasanaeth a staff unigol. Er mwyn gwneud hyn, mae gennym broses hunan-arfarnu a phroses adrodd perfformiad flynyddol mewn perthynas â'r perfformiad corfforaethol. Mae ein hadolygiadau gwella chwarterol diweddaraf yn ein galluogi i ystyried perfformiad corfforaethol a pherfformiad gwasanaethau yn rheolaidd. Mae ein hadroddiad perfformiad blynyddol (bydd hwn yn cael ei ddisodli gan Adroddiad Hunanasesu yn 2022 wrth i'r Cyngor ymateb i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021) a'r datganiad llywodraethu blynyddol yn caniatáu cynnal adolygiadau ffurfiol ac adrodd yn gyhoeddus ar ein canfyddiadau.

Mae'r diagramau 'Atebolrwydd Perfformiad → Data → Cynllunio → 'yn yr adran hon yn nodi ein cynlluniau, y data sydd ar gael, ein mesurau a'n hatebolrwydd ar draws sail strategol, weithredol ac unigol.


Rydym yn defnyddio Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus (PAMs) a mesurau lleol i fesur ein llwyddiant. Mae'r rhain wedi'u cynnwys yn ein dogfennau strategol megis ein hadroddiad perfformiad blynyddol sy'n gysylltiedig â'n Cynllun Llesiant Corfforaethol. Rydym yn defnyddio ffyrdd ansoddol a meintiol i fonitro a mesur llwyddiant.

Meintiol

Arolygon Preswylwyr a Staff	Mesurau perfformiad cenedlaethol (e.e. PAMs)
Meincnodi	Data lleol e.e. presenoldeb staff neu salwch staff
Perfformiad contractau	Canmoliaeth a Chwynion

Cynllunio → Data → Perfformio → Atebolrwydd

Strategol



Ansoddol

Astudiaethau achos – Darparu gwasanaethau neu wasanaeth i gwsmeriaid	Adborth preswylwyr a staff
Canlyniadau archwilio	Adborth mewn cyfarfodydd 1 i 1 – Aelod o staff a rheolwr llinell
Samplau astudiaethau achos (fel sy'n cael eu defnyddio yn ein hadroddiad perfformiad blynyddol)	Canlyniadau adolygiadau gan gymheiriaid acedrych ar eraill

Datblygwyd dangosfwrdd i gasglu data o bob adran a meysydd llywodraethu i lywio ein cynlluniau, ein mesurau a chynyddu atebolrwydd.

Mae ein Pwyllgorau Craffu yn cyflawni eu dyletswyddau i ddwyn ein Cabinet i gyfrif, gan gysylltu â'n cymunedau ac adolygu sut rydym yn cyflawni ein hamcanion ac yn cyflawni ein canlyniadau. Mae ein Cofrestr Risg Gorfforaethol a'n Cynlluniau Ariannol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan y CMT a'r Cabinet, ac yn cael eu herio yn ein Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (GAC) cyn cael cymradwyaeth yng nghyfarfodydd y Cabinet. Mae ein proses adolygu perfformiad a gwelliant chwarterol a chyfarfodydd misol Bwrdd y Gyllideb yn bwydo i mewn i adroddiadau i'r GAC a'r Cabinet.

Mae her adeiladol wedi digwydd drwy ein swyddogaeth Graffu, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac adolygiadau perfformiad a gwella chwarterol mewnol. Rydym ni eisiau adeiladu ar hyn wrth i ni symud ymlaen. Bydd ein cyfnod ymsefydlu ar gyfer Aelodau yn dilyn yr Etholiadau Lleol ym mis Mai yn rhan annatod o hyn.

Mae ein hadroddiad perfformiad blynyddol (fydd yn cael ei ddisodli gan ein hadroddiad hunanasesu yn 2022 fel rhan o'n hymateb i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021) yn nodi perfformiad y Cyngor yn flynyddol. Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar ein gwaith parhaus o fonitro perfformiad drwy gydol y flwyddyn. Mae Atodiad 2 yn nodi'r diffiniadau statws rydym ni'n eu defnyddio wrth reoli perfformiad a rheoli prosiectau.

Gwedd Weithredol

Mae perfformiad gweithredol yn cael ei fonitro mewn cyfarfodydd ar lefel gwasanaeth neu lefel tîm gyda'r pennaeth gwasanaeth perthnasol. Cyfeirir at y rhain yn aml fel cyfarfodydd bwrdd rheoli gwasanaeth a'u bwydo i gyfarfodydd uwch dîm arwain a chyfarfodydd y Tîm Rheoli Corfforaethol (yn ôl y gofyn). Drwy fonitro perfformiad, gellir gwneud cysylltiadau â risgiau gweithredol a monitro cyllidebau. Mae hyn yn golygu y gellir mynd i'r afael ag unrhyw faterion yn effeithlon ac yn effeithiol. Mae hyn hefyd yn helpu i weithredu unrhyw newidiadau cenedlaethol ac integreiddio cynlluniau.

Hunan-arfarnu

Mae hunan-arfarnu'n chwarae rhan allweddol yn yr elfen hon o'n gwaith llywodraethu a rheoli perfformiad. Rydym yn annog hunan-fyfyrion ynghyd â her gan gyfoedion. Gellir defnyddio her allanol gan gymheiriaid ar y pwynt hwn hefyd. Bydd pob agwedd yn cael ei herio yn ein pwyllgorau craffu ac mae'n rhan o'n proses QPIR dan arweiniad swyddogion. Gellir defnyddio hyn i lywio ein perfformiad strategol a gweithredol.

Drwy gydol y flwyddyn rydym yn cynnal hunanwerthusiad ar sut rydym ni'n cyflawni yn erbyn ein hamcanion llesiant a sut rydym ni'n gweithio gyda'n gilydd i wneud hyn. Mae ein hunan-arfarnu yn seiliedig ar 3 thema. Y rhain yw:


- 1 - Canlyniadau
- 2 – Darpariaeth a Darparu Gwasanaethau
- 3 - Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae hyn yn cael ei herio drwy gydol y flwyddyn fel rhan o'n swyddogaeth graffu (craffu gan Aelodau Etholedig) a cadolygiadau perfformiad a gwella chwarterol. Mae'r elfennau hyn hefyd yn cael eu herio gyda'i gilydd ar ddiwedd y flwyddyn mewn pwyllgor craffu perthnasol e. e. mae pwyllgor craffu'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn craffu ar yr adroddiad hunan-arfarnu Byw'n Dda. Mae data ansoddol a meintiol yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu barnau.

Yn ogystal â hunan-arfarnu, mae'r Cyngor yn ystyried ei ddata perfformiad (gan gynnwys meincnodi a data tueddiadau) cyn dod i benderfyniadau cyffredinol yn erbyn ein hamcanion llesiant (gan gynnwys sut mae gwasanaethau'n perfformio wrth gyflawni ein hamcanion).

Cynllunio → Data → Perfformio → Atebolrwydd

Gweithredol neu Lefel gwasaneth



Ein Swyddogaeth Craffu

Mae gan y swyddogaeth graffu **4 egwyddor i sicrhau craffu effeithiol** (*Y Ganolfan Craffu Cyhoeddus (CfPS)*):

- Darparu **her 'cyfaill beirniadol'** i lunwyr polisi gweithredol a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau
- Cael ei chynnal gan **'lywodraethwyr annibynnol eu meddwl'** sy'n arwain ac yn perchnogi'r broses graffu
- Sbarduno **gwelliant** mewn gwasanaethau cyhoeddus
- Galluogi **llais a phryderon** y cyhoedd a'i gymunedau

Nid yw rôl ein pwyllgorau craffu yn golygu gwneud penderfyniadau na bod yn wleidyddol ond gellir ei chrynhai yn y 4 pwynt hyn :

- | | |
|--|------------------------------|
| • Dwyn y Weithrediaeth (Cabinet) i gyfrif | • Monitro Perfformiad |
| • Adolygu a datblygu polisi | • Craffu Allanol |

Mae ein Tîm Rheoli Corfforaethol a'n Huwch Dîm Arweinyddiaeth yn darparu gwasanaethau yn unol â'r broses o wneud penderfyniadau er mwyn cyflawni'r canlyniadau gorau yn ein Cynllun Llesiant Corfforaethol. Bydd y timau hyn yn defnyddio'r dull iau gweithredu yn y ddogfen hon i gefnogi cyfathrebu â'n Staff a'n Haelodau Etholedig. Byddwn mewn sefyllfa well i egluro ein sefyllfa a sut rydym ni'n gwella o bandemig y coronafeirws ac yn trawsnewid i wella. Bydd ein rhwydwaith rheolwyr newydd yn ein helpu ymhellach i gydweithio ar draws y Cyngor.

Rydym wedi canolbwyntio ar wella ein data a sut rydym yn ei ddefnyddio wrth wneud penderfyniadau. Rydym ni'n edrych ymlaen at ddatblygu hyn ymhellach yn y dyfodol, er enghraifft drwy ddefnyddio dangosfyrddau i fonitro perfformiad.

Perfformiad Staff Unigol

Mae perfformiad ein staff yn cael ei adolygu fel rhan o'n proses 'Ffocws ar Eich Perfformiad'. Mae amcanion unigol yn cael eu gosod sy'n ymwneud â nodau gwasanaeth sy'n cysylltu hyn â'n gweledigaeth gyffredin. Mae hyn yn caniatáu i dargedau a mesurau staff gael eu rhoi ar waith.


Ffynonellau Data

Rydym yn defnyddio data o wahanol ffynonellau. Mae'r rhain yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

- Data Cymru
- Fy Nghyngor Lleol
- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
- Stats Cymru
- Cenedlaethau'r Dyfodol
- NOMIS (ystadegau swyddogol y farchnad lafur)
- Ein Cwm Taf

Cynllunio → Data → Perfformio → Atebolrwydd

Unigol



Adran 7 – Sut byddwn ni'n gwybod p'un a ydyn ni wedi gwella?

Mae ein Cynllun RTI yn nodi ein 3 blaenoriaeth a fydd yn ein galluogi i gyflawni amcanion a chanlyniadau llesiant yn well.

Mae gan y cynlluniau hyn ddangosyddion perfformiad allweddol sy'n ffurfio ein SOAPs a'r BIPs cysylltiedig mae ein gwasanaethau'n gweithio iddynt. Bydd y ddarpariaeth a'r perfformiad yn cael eu monitro drwy ein SMB. Bydd hyn yn bwydo i mewn i'n hunanwerthusiad a'n hunan-fyfyrio yn erbyn ein hamcanion llesiant (Templed Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol).

Byddwn yn ystyried gwybodaeth ansoddol yn ogystal â data meintiol. Bydd astudiaethau achos acadborth archwilio yn llywio sut rydym ni'n perfformio ac ansawdd ein gwaith. Nid yw rhywfaint o'n data arferol ar gael oherwydd effeithiau pandemig y coronafeirws felly bydd angen i ni ystyried data amgen wrth symud ymlaen.

Bydd ein proses QPIR a'n swyddogaeth graffu (yr ydym yn eu gwella fel rhan o'n Cynllun RTI) yn ein galluogi i herio a gwella'n barhaus.

Bydd hyn i gyd yn cael ei gefnogi gan ein Ffocws ar Fy Mherfformiad. Bydd ein modiwl e-berfformiad yn ein galluogi i fonitro'n well sut rydym ni'n gweithredu hyn ac ansawdd ein hamcanion unigol.

Byddwn hefyd yn adolygu'r fframwaith hwn er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i wella.

Adran 8 – Geirfa

5 ffordd o weithio a'r egwyddor datblygu cynaliadwy

Mae 5 peth mae angen i gyrrff cyhoeddus feddwl amdanynt i ddangos y gallant gydweithio'n well, osgoi ailadrodd camgymeriadau'r gorffennol a mynd i'r afael â rhai o'r heriau hirdymor rydyn ni'n eu hwynebu. Cyfeirir at hyn yn aml fel yr egwyddor datblygu cynaliadwy. Y 5 ffordd o weithio yw:

1 - Tymor hir

Pwysigrwydd cydbwysu'r anghenion tymor byr gyda'r angen i ddiogelu'r gallu hefyd i fodloni angen yn y tymor hir.

2 - Atal

Sut y gallai actio i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i fodloni eu hamcanion.

3 - Integreiddio

Ystyried sut y gallai amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar eu hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.

4 - Cydweithio

Gweithredu ar y cyd ag unrhyw berson arall (neu rannau eraill o'r corff ei hun) a allai helpu'r corff i gyflawni ei amcanion lles.

5 - Ymglymiad

Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni nodau lles, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal a wasanaethir gan y corff.

Amcan Llesiant

Mae'r Amcanion Llesiant yn nodi'r hyn sydd angen digwydd yn lleol yn ein barn ni i helpu i wella lles pobl Merthyr Tudful a chyflawni'r Nodau Llesiant cenedlaethol. Mae gan MTCBC 4 amcan llesiant.

Nod Llesiant

Mae'r 7 Nod Llesiant yn dangos y math o Gymru rydyn ni am ei gweld. Gyda'i gilydd maen nhw'n darparu gweledigaeth gyffredin i'r cyrff cyhoeddus yng Nghymru weithio tuag ati.

Cynllun Ariannol Tymor Canolig

Cynllun i gydbwysu goblygiadau ariannol amcanion a pholisïau yn erbyn cyfyngiadau mewn adnoddau, sy'n darparu sail ariannol ar gyfer gwneud penderfyniadau, er mwyn sicrhau cynaliadwyedd ariannol dros y tymor canolig (5 mlynedd).

Tlodi

Pan fydd adnoddau person yn llawer is na'r hyn mae'r person ei angen i ddiwallu ei anghenion sylfaenol.

Amddifadedd	Gellir diffinio amddifadedd fel canlyniad diffyg incwm ac adnoddau eraill, a allai gyda'i gilydd arwain at gyflwr o dlodi.
Tlodi cymharol	Os oes gan aelwyd incwm isel, mae ganddynt rywfaent o arian ond dim digon i fforddio unrhyw beth uwchlaw'r pethau sylfaenol.
Tlodi absoliwt	Os nad yw person yn cael yr isafswm incwm sydd ei angen i fodloni'r gofynion canolig ar gyfer un neu fwy o anghenion byw sylfaenol dros gyfnod estynedig o amser.
Cynllun Gwaith y Cabinet	Rhestr o benderfyniadau allweddol a phenderfyniadau eraill a gynlluniwyd gan Aelodau Cabinet i'w gwneud ar ran y Cyngor. Diben y Rhaglen Waith yw rhoi rhybudd o'r penderfyniadau hynny a chyfle i ymgynghori.
Cofrestr Risg Corfforaethol	O fewn pob sefydliad mawr, mae risgiau sy'n ymwneud â swyddogaethau busnes craidd, iechyd corfforaethol a strategaeth – caiff y rhain eu categorio fel risgiau corfforaethol. Mae'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn gofnod o'r holl risgiau corfforaethol a nodwyd; fe'i defnyddir i fonitro'r risgiau hyn a dangos sut y cânt eu rheoli/lliniaru.
Perfformiad Ansoddol	Rydym ni'n dangos hyn drwy fonitro perfformiad heb gymharu data e.e. astudiaethau achos.
Perfformiad Meintiol	Rydym ni'n dangos hyn drwy ddefnyddio ffyrdd mwy traddodiadol i fonitro a dadansoddi perfformiad, h.y. drwy ddefnyddio data.
Lles <i>(Dodge R, Daly A, Huyton J & Saunders L. (2012) The Wellbeing challenge of defining wellbeing, International Journal of Wellbeing, 2 (3), 22-235)</i>	Y pwynt cydbwysedd rhwng cronfa adnoddau unigolyn a'r heriau maen nhw'n eu hwynebu.

Atodiadau

Atodiad 1 – Ein Gweledigaeth Gyffredin



Atodiad 2 – Diffiniad o Statws

Statws Perfformiad

Diffiniadau statws dangosydd

Diffiniad o berfformiad	Safle	Statws
Mae'r sefyllfa bresennol yn rhagorol	1-6	Rhagorol
Mae'r sefyllfa bresennol yn dda	7-11	Da
Mae'r sefyllfa bresennol yn ddigonol	12-16	Digonol
Mae'r sefyllfa bresennol yn anfoddhaol	17-22	Anfoddhaol
Nid oes unrhyw wybodaeth gymaradwy neu data lleol yn unig sydd ar gael	Ddim yn berthnasol	

Disgrifydd ar gyfer pob statws

RHAGOROL	Perfformiad ac arfer cryf iawn a pharhaus
DA	Nodweddion cryf, er y gallai fod angen gwella mân agweddau
DIGONOL ac angen gwella	Mae cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond mae angen gwella agweddau pwysig
ANFODDHAOL ac angen ei wella ar frys	Mae gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau

Statws y Prosiect

Categori	Esboniad
Glas	Prosiect 100% wedi'i gwblhau ac arbedion wedi'u cronni
Gwyrdd	Mae'n ymddangos bod cyflawni'r prosiect/rhaglen yn llwyddiannus o ran amser, cost ac ansawdd yn debygol iawn ac nid oes unrhyw faterion pwysig sydd heb eu datrys sy'n debygol o fygwth cyflawni'n sylweddol
Melyn	Mae'n ymddangos bod cyflawni llwyddiannus yn ymarferol ond mae materion arwyddocaol eisoes yn bodoli y mae angen i reolwyr roi sylw iddynt. Mae'n ymddangos bod modd datrys y rhain ar y cam hwn ac os byddant yn cael sylw'n brydlon, ni ddylent or-redeg o ran cost/amserlen
Coch	Mae'n ymddangos nad oes modd cyflawni'r prosiect/rhaglen yn llwyddiannus. Mae materion mawr yn ymwneud â diffinio prosiect/rhaglenni, amserlen, y gyllideb sy'n ofynnol, darparu ansawdd neu fanteision, nad yw'n ymddangos bod modd eu rheoli na'u datrys ar y cam hwn. Efallai y bydd angen ailasesu'r Prosiect/Rhaglen a/neu ail-asesu hyfywedd cyffredinol

Atodiad 3 – Ein Model Gweithredu

Egwyddorion Gweithredu		Disgwyliadau Gweithredu
	Gwranddo ac ymgysylltu â'n rhanddeiliaid	- Mae ein cynnig gwasanaeth yn cael ei lywio gan angen ein cwsmeriaid - Byddwn yn egluro'r opsiynau cyswllt cwsmeriaid ar gyfer gwahanol grwpiau cwsmeriaid
	Cyfathrebu clir	- Mae gennym ni strategaeth gyfathrebu glir - Rydym ni'n ymgysylltu'n rheolaidd â rhanddeiliaid - Rydym ni'n rheoli ein perthnasoedd, ein henw da a'n brand yn weithredol - Byddwn yn canolbwyntio ar arweinyddiaeth
	Croesawu technoleg ddigidol	- Mae gennym ni un cofnod integredig ar gyfer pob cwsmer - Byddwn yn rhesymoli ein systemau - Rydym ni'n hyrwyddo hunanwasanaeth a mynediad ar-lein - Byddwn yn ystyried defnyddio technoleg ddigidol i wella mynediad i wasanaethau a'u darpariaeth - Byddwn yn defnyddio'r hyn a ddysgwyd o'r pandemig i weithio mewn ffordd ystwyth gan leiha'u ein hól troed carbon
	Canolbwyntio ar y blaenoriaethau a'r canlyniadau allweddol	- Rydym ni'n sefydliad gwydn a hyblyg - Mae busnes craidd bob amser yn canolbwyntio ar wireddu ein Gweledigaeth - Mae cynlluniau strategol yn cael eu pennu fel rhan o ddull cyd-gysylltiedig o gyrraedd ein blaenoriaethau allweddol - Mae targedau'n gysylltiedig â chyflawni ein canlyniadau allweddol - Byddwn yn sefydliad iach sy'n buddsoddi mewn staff (e.e. prentisiaethau) ac yn mynd i'r afael â'n materion capasiti
	Gweithredu'r strategaeth yn gyson ac yn amserol	- Mae'r polisiau'n gyfredol ac yn addas i'r diben - Mae cynlluniau cyflawni yn glir, yn ddealladwy ac yn cael eu perchnogi - Byddwn yn gwella ein llywodraethu - Rydym ni'n defnyddio rheolaeth gadarn ar brosiectau sy'n sicrhau eu bod nhw'n cael eu cyflawni'n brydlon o fewn y gyllideb - Rydym ni'n defnyddio ffyrdd safonol o weithio - Rydym ni'n datblygu ein sgiliau, ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth er mwyn cyflawni ein blaenoriaethau allweddol - Bydd cefnogi'r swyddogaethau busnes yn digwydd yn ganolog

	Mae pawb yn atebol	• Rydym ni wedi ein grymuso ac yn atebol am wneud y penderfyniadau cywir, am y pethau cywir ar yr adeg iawn • Rydym ni'n cyflawni ein rolau a'n cyfrifoldebau yn unol â'n proses 'Canolbwyntio ar Eich Perfformiad' • Byddwn yn cydnabod cyflawniad a pherfformiad gwael • Byddwn yn monitro, herio a chefnogi perfformiad er mwyn cyflawni ein blaenoriaethau allweddol • Bydd data yn llywio'r broses o wneud penderfyniadau • Bydd rheoli perfformiad yn ffocws i bob un ohonom
	Alinio'r gyllideb â'r blaenoriaethau allweddol	• Byddwn yn diffinio costau gwasanaeth llawn • Byddwn yn deall ac yn rheoli'r galw am wasanaethau • Byddwn yn gwneud penderfyniadau ariannol sy'n cael eu harwain gan ddeallusrwydd (defnyddio ein data) • Rydym ni'n adolygu ac yn nodi'r ffordd orau o ddarparu pob gwasanaeth • Byddwn yn ystyried ein cyfleoedd masnachol
	Hybu annibyniaeth	• Rydym ni'n grymuso unigolion a chymunedau • Rydym ni'n diffinio ein darpariaeth gwasanaeth yn glir ac yn hyrwyddo ac yn cyfeirio at ddarpariaeth amgen gan weithio gyda phartneriaid • Mae materion yn cael eu datrys ar y pwynt cyswllt cyntaf • Rydyn ni'n cytuno ar lefel y risg rydyn ni'n barod i'w chymryd